

This is an Open Access document downloaded from ORCA, Cardiff University's institutional repository: <https://orca.cardiff.ac.uk/id/eprint/108346/>

This is the author's version of a work that was submitted to / accepted for publication.

Citation for final published version:

Loeffler, Marion 2016. Yn Sgil Chwyldro Ffrengig 1789: Cyfieithu Radicalaidd i'r Cymry. *Llên Cymru* 39 (1), pp. 33-55. 10.16922/lc.39.4

Publishers page: <https://doi.org/10.16922/lc.39.4>

Please note:

Changes made as a result of publishing processes such as copy-editing, formatting and page numbers may not be reflected in this version. For the definitive version of this publication, please refer to the published source. You are advised to consult the publisher's version if you wish to cite this paper.

This version is being made available in accordance with publisher policies. See <http://orca.cf.ac.uk/policies.html> for usage policies. Copyright and moral rights for publications made available in ORCA are retained by the copyright holders.



## Yn sgil Chwyldro Ffrengig 1789: Cyfieithu radicalaidd i'r Cymry<sup>1</sup>

Ddinesydd,

Os bernwch fod yn y llinellau isod ryw beth a fyddai, naill a'i er addysg a'i pleser i'm cydwladwyr, y mae i chwi ryddid i'w gwneuthur yn gyhoedd, drwy gaffael o honynt le yn eich Cylchynol Drysorfa: Hyderu yr wyf, y bydd i chwi a'm Cydwladwyr hynaws, gyd-ddwyn a llawer o feiau, oblegid, er fod y cyfieithydd yn *hen* ac yn *benllwyd* o ran dyddiau, nid ydyw ond *ieuangc* yn y gelfyddyd o gyfieithu. Ni fernais yn addas chwilio am hen eiriau caledion, tywyll ac anystwyth, y rhai sydd yn peri diflasrwydd i'r cyffredin, ar bethau buddiol a da: Ac ni fedraf fi weled fod y cyfryw ddull er harddwch, na gogoniant i'r hen fam Iaith; i'r hon y mae gennyf gymmaint o barch a neb i'm cenedl.<sup>2</sup>

Dyma ddechrau'r neges a anfonodd 'Eiddil' o'r 'Glyn-dyfroedd Hyfryd' at olygydd y *Geirgrawn* ar 8 Hydref 1796 i gyflwyno ei gyfieithiad, 'Hanes a gymmerwyd allan o Law-scrif-lyfr a gafwyd yn Llyfr-gell y diweddar Frenhin Ffraingc'. Y mae'r cyflwyniad a'r testun ill dau'n arwyddocaol o ran cyfieithu ac ysgrifennu gwleidyddol radicalaidd yn sgil Chwyldro Ffrengig 1789. Datgana'r cyfarchiad gweriniaethol newydd, 'Ddinesydd', duedd wleidyddol yr awdur yn glir.<sup>3</sup> Yng nghorff y cyflwyniad esbonia Eiddil ei fod am addysgu'r werin yn ogystal â hyrwyddo'r Gymraeg y mae ef am ei gweld 'yn ei gem-wisg aur', wedi ei gwisgo â geiriau heirdd.<sup>4</sup> Pwysleisia ei awydd i Gymreigio testun ei ffynhonnell a'i gartrefoli i gynulleidfa benodol, 'y cyffredin' neu'r werin Gymraeg. Golyga hyn iddo ddefnyddio geiriau a phriod-ddulliau cyffredin ar lafar gwlad.<sup>5</sup> Yn hyn o beth cysyllta radicaliaeth wleidyddol â chenedlaetholdeb diwylliannol, gan felltithio'r Saesneg fel tarddle llygru'r Gymraeg, ac y mae'n amcanu at 'feddygyniaethu ei madredig friwiau' drwy ei waith cyfieithu.<sup>6</sup> Ceir datganiadau tebyg yn rhageiriau ambell gyfieithydd radicalaidd arall, a'r amcan didactig,

---

<sup>1</sup> Yr wyf yn ddiolchgar i Dr Gwen Gruffudd a Dewi Huw Owen am sylwadau ar y testun, a Dr Heather Williams am ei chyfraniad i brosiect cysylltiedig â'r ysgrif hon.

<sup>2</sup> 'Eiddil', 'Hanes a gymmerwyd allan o Law-scrif-lyfr a gafwyd yn Llyfr-gell y diweddar Frenhin Ffraingc', *Y Geirgrawn*, IX (1796), 274–5.

<sup>3</sup> Am sylwadau ar y para-destunau hyn, gweler Marion Löffler, *Welsh Responses to the French Revolution. Press and Public Discourse* (Cardiff, 2012), tt. 12–13; am esiamplau eraill gweler *ibid.*, tt. 157, 205, 275.

<sup>4</sup> 'Eiddil', 'Hanes a gymmerwyd allan o Law-scrif-lyfr', 274.

<sup>5</sup> Am sylwadau John Jones (Jac Glan-y-Gors) i'r un perwyl, gweler ei ragdraeth i *Seren tan Gwmmwl*, ym Marion Löffler (gyda Bethan Jenkins), *Political Pamphlets and Sermons from Wales 1790–1806* (Cardiff, 2014), tt. 111–12.

<sup>6</sup> 'Eiddil', 'Hanes a gymmerwyd allan o Law-scrif-lyfr', 275.

addysgiadol yn amlwg. Dengys nodweddion yr awdur ei hun, ‘yn *hen* ac yn *benllwyd* o ran dyddiau’ ond yn ‘*ieuangc* yn y gelfyddyd o gyfieithu’, yr ehangiad yng nghylch y cyfranwyr i gynnwys y sawl nad oedd erioed wedi cyfrannu at drafodaeth gyhoeddus a’r sawl oedd yn mynd at y gwaith o gyfieithu am y tro cyntaf. Fel yn Lloegr, democrateiddiwyd y ddisgwrs gyhoeddus a’i hiaith yn sgil Chwyldro 1789 i gynnwys awduron a chyweiriau mwy gwerinol nag o’r blaen. Yn wahanol i Loegr, bu i gyfieithu rhyngieithol rôl bwysig yn y proses hwn yng Nghymru.

### *Eiddil a’r Haft Payka*

Cyfieithiad yw cyfraniad Eiddil, fel llawer o’r testunau gwleidyddol a gyhoeddiwyd yng Nghymru cyn diwedd Rhyfeloedd Napoleon, yn fwy aml na pheidio mewn cysylltiad â’r ddau *genre* newydd a ddatblygodd yn y Gymraeg yr adeg hon, y cylchgrawn a’r pamffled. Testun Saesneg yw’r ffynhonnell, er ei fod wedi tarddu yn bell i ffwrdd o Loegr, yn ddaearyddol ac ieithyddol. Ar wahân i ychydig iawn o eithriadau, trosglwyddwyd syniadau newydd yr Ymoleuo a’r Chwyldro Ffrengig i’r Cymry wedi eu hidlo drwy iaith a disgyrsiau Lloegr, gan ffurfio’r elfen derfynol mewn cadwyn ‘cyfieithu dilynol’ i sawl iaith.<sup>7</sup> Dewisodd Eiddil drosi ensiampl neu foeswers o’r *Haft Payka*, cerdd Bersiaidd ganoloesol, er nad yw hyn yn amlwg yn nheitl y darn, a’i anfon at y *Geirgrawn*.<sup>8</sup> Yn y chwedl, y mae’r werin bobl wedi codi mewn gwrthryfel yn erbyn y brenin ifanc Bahrām V Gōr a orddibynnodd ar ei gynghorydd i’w llywodraethu. O ganlyniad i sgwrs â bugail sydd newydd grogi ei gi am droi’n llofrudd defaid yn lle bugeilio’r

---

<sup>7</sup> Am ‘gyfieithu dilynol’, h.y. ‘relay translation’, o un iaith i sawl iaith arall yn olynol, gweler James St André, ‘Relay’, ym Mona Baker a Gabriela Saldanha (goln.), *Routledge Encyclopedia of Translation Studies* (2il arg., Abingdon, 2009), tt. 230–2. Am esiamplau eraill, gweler Marion Löffler, ‘The Marseillaise in Wales’, yn Mary-Ann Constantine a Dafydd Johnston (goln.), *Footsteps of Liberty and Revolt: Essays on Wales and the French Revolution* (Cardiff, 2013), tt. 99–101; Heather Williams, ‘Cymru, y Chwyldro Ffrengig a Gwyn Alf Williams: Ailasesu’r Dystiolaeth’, *Llên Cymru*, 35 (2012), 181–5.

<sup>8</sup> Nizami Ganjavi, *The Haft Paykar. A Medieval Persian Romance. Translated with an Introduction and Notes by Julie Scott Meisami* (Indianapolis, 2015), tt. xix–xx.

praidd, y mae'r brenin ifanc yn dienyddio ei gynghorydd bradwrus ac yn adfer heddwch. Dyma hefyd yw llif naratif Eiddil. Honiad Eiddil yn y pennawd yw mai o 'Law-scrif-lyfr a gafwyd yn Llyfr-gell y diweddar Frenhin Ffrainge' y daeth y testun ffynhonnell. Er y cyhoeddasiad cynnwys llyfrgell brenin Ffrainc ym 1789 a'i gyfieithu i'r Saesneg (gyda gofal, yn ôl y cyfieithydd, 'to render it faithful'), ni cheir y chwedl yn y ddwy gyfrol.<sup>9</sup> Dyfais er mwyn cysylltu'r ensiampl â hanes diweddar Ffrainc oedd y cyd-destunoli ffug hwn, mwy na thebyg; a'r chwedl wedi ymddangos mewn cylchgronau Saesneg ers 1770, o dan benawdau megis 'Historical Anecdote. A Young King of Persia taught Wisdom by a Shepherd'.<sup>10</sup> Dengys y cyfieithiad yn glir mai'r rhain oedd ffynonellau Eiddil, ond erbyn iddo droi'r ensiampl i'r Gymraeg, yr oedd ganddi ystyr ychwanegol. Methasai brenin Ffrainc wrando ar gyngor y bobl gyffredin ar adeg gynhyrfus, gan golli ei wlad a'i fywyd o ganlyniad ym 1793. Erbyn 1796, yr oedd y chwedl hefyd yn rhybudd i lywodraeth Lloegr a fu'n ceisio llethu'r mudiad grymus er diwygio system wleidyddol y wlad yn ogystal â darostwng y terfysgoedd prinder bwyd a'r gwrthwynebiadau ffyrnig i'w presgangiau oedd am orfodi rhagor o ddynion cyffredin i ymuno â'r rhyfel yn erbyn y weriniaeth newydd.<sup>11</sup>

Fel gyda'i gyfarchiad a'i deitl, y mae Eiddil yn siapio ei destun yn ofalus yn ôl ei argyhoeddiad gwleidyddol, gan ychwanegu at y ffynhonnell mewn ychydig fannau, i gymhwyso'r ensiampl Bersiaidd i wleidyddiaeth y Brydain fodern a chryfhau'r neges radicalaidd. 'Vizir' yw'r gair a ddefnyddir yn y ddau destun ffynhonnell Saesneg am y cynghorydd drwyddi draw, heb esbonio'r swydd mewn cyd-destun Ewropeaidd a chan

---

<sup>9</sup> *Accounts and Extracts of the Manuscripts in the Library of the King of France. Published under the Inspection of a Committee established by the Royal Academy of France. Translated from the French* (London, 1789), t. ii.

<sup>10</sup> 'A young King taught wisdom by a shepherd', *The Oxford Magazine. Or Universal Museum*, 5 (Medi 1770), 107; 'Historical Anecdote. A Young King of Persia taught Wisdom by a Shepherd', *The London Magazine, or Gentleman's Monthly Intelligencer*, 47 (Tachwedd 1778), 503-4. Y mae bodolaeth rhagor o destunau ffynhonnell yn bosib, gan fod cylchgronau'r cyfnod yn rhannu a dyblygu deunydd yn rhydd.

<sup>11</sup> Pasiwyd rhes o ddeddfau i wahardd y ddisgwrs gyhoeddus o 1792 ymlaen, e.e. Royal Proclamation against Seditious Writings, 21 May 1792; Habeas Corpus Suspension Act 1794 (34 Geo. III: c. 54); Seditious Meetings Act 1795 (36 Geo. III: c. 8); Treasonable and Seditious Practices Act 1795 (36 Geo. III: c. 7); Habeas Corpus Suspension Act 1798 (38 Geo. III: c. 36); Habeas Corpus Suspension Act 1799 (39 Geo. III: c. 15).

ddefnyddio'r gair estron fel arwydd o wreiddiau dwyreiniol y chwedl. Cyhoeddwyd anecdotau tebyg yn fynych mewn cylchgronau Saesneg, yn adrodd am wledydd pellennig, yn addurno bywgraffiadau enwogion y byd, ac yn cyfleu moeswersi cyffredinol. Yn y testun Cymraeg ceir eglurhad ychwanegol wrth adrodd y ffaith fod y brenin ifanc wedi rhoi 'gofal ei lywodraeth i'w weinidog pennaf (*Vizir*, neu *Prime Minister*)', cyn rhoi'r collfarniad, 'yr hwn a feddyliodd nad oedd raid iddo yntef byth ofalu am roddi cyfrif o'r oruchwyliaeth'.<sup>12</sup> Esbonnir mewn termau cyfoes Cymraeg a Saesneg mai 'gweinidog pennaf' neu '*Prime Minister*' yw y 'vizir' hwn, a thrawsblannu'r ffigwr i rôl wleidyddol Brydeinig. Cyfieithiad o'r '*Prime Minister*', sef 'prif Weinidog', a geir drwy gydol y testun wedyn, fel petae Eiddil am i'r gynulleidfa ymgyfarwyddo â'r term gwleidyddol hwn a ganfu, o bosib, yng ngeiriadur John Walters.<sup>13</sup> Yn lle gwarchod 'bydd [*sic*] y Cyffredin', camarferodd y Prif Weinidog hwnnw ei 'awdurdod', a chododd pobl Persia mewn gwrthryfel yn ei erbyn. O ganlyniad, 'all forts of order, justice and œconomy, were now no more', yn ôl y testun Saesneg.<sup>14</sup> Ehanga Eiddil ar hyn hefyd i esbonio:

Nid oedd un math o drefn yn cael ei chynnal, cyfiawnder heb gael lle mewn dim; nag un math o gyssondeb (*œconomy*) Llywodraethol yn cael ei arferyd.<sup>15</sup>

Diddorol gweld bod Eiddil yn cynnig gair Cymraeg am 'œconomy', gan geisio creu term sy'n cysylltu hyn â gwlad a llywodraeth. Gwaetha'r modd, nid ydym yn gallu bod yn sicr mai 'cysondeb llywodraethol' yn ei ystyr gwleidyddol y bwriadai ei ddatgan.

Ychwanega Eiddil at y testun Saesneg hefyd pan ddaw hi at newid meddwl y brenin ifanc er gwell. 'He roused himself from his lethargy', meddai'r ddau destun Saesneg, ond 'dechreuodd arffed diofalwch a menyweidd-dra (*effeminacy*)', medd Eiddil. Cysylltid

---

<sup>12</sup> 'Eiddil', 'Hanes a gymmerwyd allan o Law-scrif-lyfr', 275–6.

<sup>13</sup> John Walters, *An English-Welsh Dictionary, Wherein not only the Words, but also the Idioms and Phraseology of the English Language, are carefully translated into Welsh, by proper and equivalent Words and Phrases* (London, 1794), d.g. 'prime minister'.

<sup>14</sup> 'A young King taught wisdom', 107; 'Historical Anecdote', 503.

<sup>15</sup> 'Eiddil', 'Hanes a gymmerwyd allan o Law-scrif-lyfr', 276.

‘menyweidd-dra’ â chwedlau orientalaidd yn nhestunau Saesneg y cyfnod, ond yr oedd hefyd yn arwydd o ddiogi ac anlladrwydd cylchoedd brenhinol Ewropeaidd.<sup>16</sup> Yn ôl *Geiriadur Prifysgol Cymru*,<sup>17</sup> dyma’r tro cyntaf i’r gair ddigwydd mewn cyhoeddiad Cymraeg, ac er nad yw’n dderbyniol (bellach), rhaid cydnabod ymdrech y cyfieithydd i fynegi cysyniad oedd yn amlwg yn y wasg boblogaidd Saesneg ar y pryd, gan ei ddefnyddio i gryfhau ei gollfarniad ar ymddygiad y brenin. Ar ddiwedd yr ensiampl, newidir y foeswers yn syfrdanol gan Eiddil drwy ddewis berf wahanol ac felly wrthdroi cyfeiriad gweithredu’r frawddeg. ‘The misfortunes of the multitude will always fall upon the governor or leader’,<sup>18</sup> meddai’r bugail Persiaidd yn y testunau Saesneg. I’r Cymry, y mae Eiddil yn gosod tarddiad y drwg gyda’r sawl sydd mewn awdurdod:

Cyfyngderau’r bobl, ebr y bugail, sydd bob amser yn ymgyfodi oddiwrth ddrwg ymddygiad y rhai hynny a fyddont wedi cael eu gosod uwchlaw iddynt.<sup>19</sup>

Y mae cystudd y bobl gyffredin yn tarddu oddi wrth y sawl sy’n eu llywodraethu. Hwyl sydd wrth wraidd y drwg, ac felly troir neges y testun ffynhonnell y tu chwith allan. Ond y mae gan y werin gyffredin bŵer hefyd. O ganlyniad i gyngor y bugail, a dienyddio’r cynghorydd bradwrus:

Trefn dda a rheolau addas a adferwyd yn Persia; a’r brenhin a ddysgodd, trwy’r bugail diniweid, pa fodd y dylai tywysogion lywodraethu eu deiliaid.<sup>20</sup>

Newidia Eiddil y cymal olaf sydd yn cyfleu’r foeswers. Yn lle y ‘mankind’, h. y. ‘dynolryw’, dysga’r tywysog sut i lywodraethu ei ‘[dd]eiliaid’, gan gyfeirio yn fwy penodol at frenin Prydain a’i ddeiliaid. Osgoir cyfieithu ‘poor shepherd’ yn uniongyrchol. Yr oedd i’r rhan fwyaf o ystyron yr ansoddair ‘poor’ ystyr negyddol, gan gynnwys ‘mean’, ‘narrow’ a

---

<sup>16</sup> Samuel Johnston, *A Dictionary of the English Language* (6ed arg., London, 1785), d.g. ‘effeminacy’.

<sup>17</sup> *Geiriadur Prifysgol Cymru [GPC]*, d.g. ‘menyweidd-dra’.

<sup>18</sup> ‘A young King taught wisdom’, 107; ‘Historical Anecdote’, 503.

<sup>19</sup> ‘Eiddil’, ‘Hanes a gymmerwyd allan o Law-scrif-lyfr’, 276.

<sup>20</sup> *Ibid.*, 276.

‘contemptible’.<sup>21</sup> Dewisodd ‘diniwed’ yn hytrach, ansoddair positif â chysylltiadau beiblaidd cryf,<sup>22</sup> sy’n dyrchafu’r bugail ymhellach. Y mae’n siŵr fod pwysigrwydd trosiad y bugail mawr a amddiffynna’r praid dynol rhag y bleiddiaid, a gymhathwyd i’r sefyllfa wleidyddol yn nhestunau eraill y cyfnod,<sup>23</sup> wedi ychwanegu at atyniad y testun Saesneg i Eiddil, ac at bŵer gwleidyddol-grefyddol y foeswers hon yng Nghymru.

Yn fwy cyffredinol, amlygir y berthynas ymerodraethol a threfedigaethol rhwng y diwylliannau perthynol i gadwyn cyfieithu dilynol y chwedl hon o’r Bersieg i’r Saesneg (drwy’r Ffrangeg o bosib) ac yna o’r Saesneg i’r Gymraeg. Gadawyd olion clir o ddiwylliant estron ‘orientalaidd’ yn fersiwn yr iaith bontio, Saesneg, er mwyn cadw pellter, o bosib, a phwysleisio’r elfen egsotic, israddol. Yn y Gymraeg, ar y llaw arall, cartrefolir y chwedl i raddau pell gan ei chymhathu i’r dirwedd wleidyddol Brydeinig yr oedd Cymru yn rhan ohoni er mwyn ei beirniadu, fel y dengys cyfarchiad a chyflwyniad Eiddil a’r cyd-destun yn y cylchgrawn radicalaidd *Y Geirgrawn*.<sup>24</sup> I’r sawl sydd yn ystyried cyfieithu yng nghyd-destun astudiaethau ôl-drefedigaethol, y mae hi’n werth ystyried taith y chwedl ganoloesol hon o’r Bersia ddwyreiniol. Mewnforiwyd hi i’r Ewrop freniniaethol yn sgil trefedigaethu Persia gan sawl pŵer Ewropeaidd, ond canfu gartref ac ystyr gwleidyddol newydd mewn iaith drefedigaethol ar gyrion gorllewinol Ewrop wedi Chwyldro 1789.

### *Jac Glan-y-gors a syniadau gweriniaethol Thomas Paine*

Er bod testunau ffynhonnell cyfieithwyr adeg y Chwyldro Ffrengig fel arfer yn tarddu’n agosach, rhannent nodweddion pwysig eu gwaith ag Eiddil. Defnyddient eu gallu ieithyddol

---

<sup>21</sup> Johnston, *A Dictionary of the English Language*, d.g. ‘poor’.

<sup>22</sup> *GPC*, d.g. ‘diniwed’.

<sup>23</sup> Gweler, e.e., [Thomas Evans], ‘HYMN i’w chanu ar ddydd ymryd gan gyfeillion dynolryw’, *The Miscellaneous Repository: Neu, Y Drysorfa Gymmysgedig*, I (1795), 16–18.

<sup>24</sup> Am y *Geirgrawn*, gweler Löffler, *Welsh Responses*, tt. 29–35.

a'r traddodiad a etifeddasant gan gyfieithwyr y Beibl i'r Gymraeg er mwyn cymhathu negeseuon gwleidyddol radicalaidd o America, Ffrainc a Lloegr i dirwedd feddyliol y Cymry. Dim ond rhyw ychydig o destunau a droswyd yn y dull hwn yn ystod y ddeunawfed ganrif, ond yr oedd digon ohonynt i barhau'r traddodiad o Gymreigio (h. y. cartrefoli) testunau, a datblygu'r arfer o fathu geiriau gwleidyddol a'u hesbonio, yn fynych mewn nodiadau neu rhwng cromfachau, fel y gwelwyd yng nghyfieithiad Eiddil. Yn sgil Chwyldro Ffrengig 1789, cynyddodd nifer y cyhoeddiadau a'r cyfieithiadau gwleidyddol Cymraeg yn sydyn ac yn sylweddol. Amcangyfrifir erbyn hyn fod o leiaf dri deg y cant o destunau'r cylchgronau Cymraeg radicalaidd eu naws a gyhoeddwyd rhwng 1793 a 1796 yn drosiadau o'r Saesneg,<sup>25</sup> a chyfieithwyd mwy nag ugain o bamffledi gwleidyddol i'r Gymraeg. Defnyddid cyfieithu gan radicaliaid crefyddol a gwleidyddol i ledaenu'r syniadau chwyldroadol, ond hefyd gan gynrychiolwyr swyddogol ac answyddogol y frenhiniaeth a'r wladwriaeth Brydeinig fel offeryn i gadarnhau pŵer y wladwriaeth ac atal unrhyw newidiadau i'r *status quo*. Priodolid cryn bŵer i'r weithred o gyfieithu yn gyffredinol yn y gymdeithas drefedigaethol ddwyieithog hon ar adeg o ddadymchwel gwleidyddol sylweddol, fel y tystia'r ddisgwrs am gyfieithu, y gofyn am gyfieithiadau, yr ofn a ddangosid tuag at y weithred, a hefyd yr ymatebion llenyddol, diwylliannol ac ymarferol i gyfieithiadau'r dydd.

Ar frig rhestr awduron radicalaidd y Chwyldro Ffrengig yr ofnid eu dylanwad hwy ar feddwl deiliaid brenhiniaeth Prydain Fawr yr oedd y gweriniaethwr Thomas Paine. Bu ei weithiau yn sbarduno disgwrs wleidyddol newydd ers cyhoeddi *Common Sense* ym 1776, er gwaethaf ymgyrchoedd eang a hir y wladwriaeth i wahardd ei lyfrau a'i ddedfrydu am enllib gwrthryfelgar. Yng Nghymru'r 1790au, dadansoddwyd ef fel offeryn Duw mewn

---

<sup>25</sup> Hywel M. Davies, "Transatlantic Brethren": A Study of English, Welsh and American Baptists with Particular Reference to Morgan John Rhys (1760–1804) and his Friends' (traethawd PhD anghyhoeddedig Prifysgol Cymru, 1984), t. 329; Löffler, *Welsh Responses*, tt. 46–7.



almanaciau,<sup>26</sup> condemniwyd ei waith mewn barddoniaeth deyrngarol,<sup>27</sup> cyhoeddwyd pamffledi a thafleddi yn ei erbyn,<sup>28</sup> dinistriwyd gweithiau oedd yn ei efelychu a chrogwyd ei ddelw yn gyhoeddus.<sup>29</sup> Yn anad dim, ofnid y posibilrwydd o fodolaeth ei syniadau gweriniaethol ac ymoleuol ef a'i debyg yn y Gymraeg, i'r Cymry eu derbyn, eu deall a'u gweithredu.<sup>30</sup> Mor ddwfn a hirhoedlog y bu'r ofn, daeth yn rhan o'r naratif deallusol ar ryddiaith wleidyddol Saesneg y cyfnod. Yr unig sylw a geir gan Gregory Claeys am Gymru ar ddechrau wyth cyfrol o bamffledi gwleidyddol y cyfnod, yw bod datblygiadau yno yn dywyll, gan adrodd, serch hynny, am fodolaeth si ym 1792 'that the Rights of Man was being distributed for free in a Welsh translation, though no copy of this seems to have survived'.<sup>31</sup> Gwyddom i adroddiadau hysterig ar derfysg Dinbych Ebrill 1795 bwysleisio bod y dorf dan arweiniad un John Jones o Aerddren ger Llangwm,<sup>32</sup> 'who in their own Language echoed the sentiments of Payne and his Jacobin Crew'.<sup>33</sup> Condemniwyd y Jones hwn hefyd fel gohebydd â'r Siacobin John Thelwall, gan ei gyhuddo o siarad 'the true Language of Democracy', yn y Gymraeg.<sup>34</sup> Carcharasid Thelwall ym mis Mai 1794, a chanddo yntau lythyr yn ei feddiant 'without any address' gan un John Jones o Feirionnydd, a ddefnyddiwyd i geisio profi teyrnfradwriaeth ar ran Thelwall o'i gynnwys, sef cais y Jones hwn i gyfieithu 'some of the papers of the Corresponding Society ... into Welch for the information of the inhabitants of Wales', a hefyd 'the works of Paine ...

---

<sup>26</sup> Löffler, *Welsh Responses*, tt. 80–3.

<sup>27</sup> 'Cân Twm Paen', yn Cathryn A. Charnell-White, *Welsh Poetry of the French Revolution, 1789–1805* (Cardiff, 2012), t. 252.

<sup>28</sup> Löffler (gyda Jenkins), *Political Pamphlets*, tt. 13, 26, 52–4.

<sup>29</sup> Löffler, *Welsh Responses*, tt. 16, 138, 173; Frank O'Gorman, 'The Paine Burnings of 1792–1793', *Past & Present*, 193 (2006), 111–55.

<sup>30</sup> John James Evans, *Dylanwad y Chwyldro Ffrengig ar Lenyddiaeth Cymru* (Lerpwl, 1928), tt. 11–15; Löffler, *Welsh Responses*, tt. 23–4, 50–1; eadem (gyda Jenkins), *Political Pamphlets*, tt. 52–4; Charnell-White, *Welsh Poetry*, tt. 14–19.

<sup>31</sup> Gregory Claeys, 'General Introduction', yn idem (gol.), *Political Writings of the 1790s. Volume 1: Radicalism and Reform: Responses to Burke 1790–1791* (London, 1995), t. iv, troednodyn. Diddorol gweld haneswyr radicaliaeth yr Alban yn atgynhyrchu si tebyg am fodolaeth trosiad Gaelleg o *Rights of Man* mewn llawysgrif nad oedd dim un o'r awduron erioed wedi ei gweld.

<sup>32</sup> W. Lloyd Davies, 'The Riot at Denbigh in 1795', *Bwletin Bwrdd Gwybodau Celtaidd*, 4 (1927), 62–3.

<sup>33</sup> Hester Piozzi at Hester Maria Thrale, 3 Ebrill 1795, yn Edward A. Bloom a Lillian D. Bloom (goln.), *The Piozzi Letters* (6 chyf., Newark, 1989–2002), II, t. 256. Yr wyf yn ddiolchgar i Dr Elizabeth Edwards am y cyfeiriad hwn.

<sup>34</sup> *Ibid.*

and that there were people there who had too much spirit to be trampled upon by R—l rogues'.<sup>35</sup> Nid oes sicrwydd pa John Jones oedd awdur llythyr ymfflamychol 1794, a phwy a arweiniodd dorf derfysgaid Dinbych ym 1795, neu'n wir, ai'r un dyn ydynt.<sup>36</sup> Beth sydd yn sicr yw bod pob tu gwleidyddol – radicaliaid a theyrngarwyr – wedi priodoli grym eithriadol i'r weithred o Gymreigio syniadau gweriniaethol Thomas Paine a'i griw o Siacobiniaid.

Er bod cryn ansicrwydd ai John Jones, Jac Glan-y-gors, oedd awdur y llythyr at Thelwall, ac er y'i cyfrifir fel baledwr gan fwyaf, amlygir yn ei waith ei fod yn un o brif ladmeryddion syniadau gweriniaethol i iaith gwerin Cymru. Rhoddodd y proses o olygu dau bamffled Jac Glan-y-gors a'u cyfieithiadau i'r Saesneg gyfle i mi astudio gwaith y ddau, Jac Glan-y-gors a Thomas Paine, yn fanwl er mwyn canfod a oedd sail i'r si am fodolaeth cyfieithiad o waith Paine i'r Gymraeg ac ystyried ystod a chyfeiriad dylanwad y gweriniaethwr Saesneg enwog ar ysgrifennu Jac Glan-y-gors.<sup>37</sup> Fy nghasgliad i oedd fod *Seren tan Gwmmwl* a *Toriad y Dydd*, fel cyfanwaith, yn gymysgedd o gyfieithu rhyngieithol, o addasu, ac o ysgrifennu ymlaen i gyfeiriad diwylliant brodorol Jac, oll o dan ddylanwad syniadaeth Paine, yn anad dim. O'r tro cyntaf y trafodwyd *Seren tan Gwmmwl* yn y *Geirgrawn* ym 1796 tan yn ddiweddar, y mae'r nodweddion sy'n pwyntio at gyfieithu rhyngieithol wedi dod dan lach o bob tu. Agorwyd yr ymosodiadau ar *Seren tan Gwmmwl* yn y *Geirgrawn* gan 'Antagonist', sef Edward Charles (Siamas Wynedd), yn cyhuddo'r testun o fod 'megys crippyl, braidd yn hollawl ymlusgo, wrth nerth baglau gwyr eraill', sef awduron Saesneg,<sup>38</sup> a chysylltwyd hyn â'r cyhuddiad o ddeistiaeth gan 'Peris', sef Peter Bailey Williams, gan fod 'Sion Jones, Cyfieithydd y "Seren tan Gwmmwl" ... yn gwrthwynebu pob math o grefydd a Duwioldeb; fal

---

<sup>35</sup> *Hereford Journal*, 10 Rhagfyr 1794; 'The Trial of John Thelwall ([1794])', yn John Barrell a Jon Mee (goln.), *Trials for Treason and Sedition, 1792–1794* (8 cyf., London, 2008), VIII, t. 32.

<sup>36</sup> Nid oes copi o'r llythyr wedi ei ddarganfod, a hebdo, y mae'n anodd profi awduraeth. Y mae'n bosib i John Jones, Aerddren, neu John Jones (Jac Glan-y-gors), ysgrifennu'r llythyr. Am farn Davies gweler 'The Riot', 63.

<sup>37</sup> Löffler (gyda Jenkins), *Political Pamphlets*, tt. 55–61, 111–91.

<sup>38</sup> Antagonist, 'GOLWG BYR AR Y LLYFR A ELWIR SEREN TAN GWMMWL a gyhoeddwyd yn *Llundain* yn y flwyddyn, 1795', *Y Geirgrawn: Neu Drysorfa Gwybodaeth*, I (1796), 16; Gweler hefyd Löffler, *Welsh Responses*, t. 255.

ag y mae *Tom Paine* wedi gosod allan, yn eglur yn ei lyfr, a elwir *Age of Reason* neu Oes Rheswm'.<sup>39</sup> Amddiffynnwyd y testun yn yr un ddisgwrs wrth-gyfieithu: 'Nid ydwyf ddim yn meddwl i'r dyn hwnnw erioed ganlyn Thomas Paine, ac nid ydyw rhediad ymadroddion y llyfr ddim yn debyg i gyfieithiad' oedd ateb 'Carwr Rheswm' i'r ymosodiadau.<sup>40</sup> Ym 1928, barnwyd gan awdur y gyfrol Gymraeg gyntaf ar effaith Chwyldro Ffrengig 1789 ar Gymru, 'nad yw deuparth y *Seren Tan Gwmmwl* yn ddim amgen na chrynodeb o'r llyfr Saesneg [*Rights of Man*] ... a gwyddai cystal â neb nad oedd y *Seren* ddim yn gyfraniad newydd mewn athroniaeth wleidyddol'.<sup>41</sup> Yn hytrach na holi am gyd-destun ac amcan y ddau bamffled, condemniwyd hwy fel gweithiau eilradd a halog, am eu bod yn gysylltiedig â'r weithred o gyfieithu. Mewn cyferbyniad, ac er cydnabyddiaeth gyffredinol o ddylanwad syniadau Paine ar gewri'r cyfnod – yn eu plith Benjamin Franklin a George Washington – nid ystyrir y llw o destunau Saesneg sy'n seiliedig ar waith arloesol Paine ac yn adlewyrchu ei arddull a'i iaith, yn ddiwerth am fod yn gyfieithiadau neu'n addasiadau mewnieithol Saesneg.<sup>42</sup> Bai Jac Glan-y-gors oedd trosglwyddo'r syniadau a'u haddasu i gywair gwerinol iaith drefedigaethol ac ar gyfer pobl a diwylliant nad ystyriwyd hyd yn oed yn fygythiad. Am iddo geisio canfod ffordd fywiog, werinol o fynegi syniadau chwyldroadol yn yr iaith Gymraeg, y mae ymdrech Jac Glan-y-gors yn fwy yn hytrach nag yn llai nag eiddo'r sawl a arhosodd y tu mewn i ffiniau'r Saesneg. Dim ond yn ddiweddar y dechreuwyd gosod gwaith Jac ar yr un lefel â'r rhai Saesneg. Er bod Damian Walford Davies, er enghraifft, yn barnu bod rhai darnau yn *Seren tan Gwmmwl* yn 'straight translations', y mae'n cyfri'r cyfan yn 'racy Welsh Paineite tract', gan amlygu

---

<sup>39</sup> Peris, 'Y Golygwr', *Y Geirgrawn: Neu Drysorfa Gwybodaeth*, V (1796), 144.

<sup>40</sup> Carwr Rheswm, 'Golwg ar Ymddiffiniad *Peris* o Frenhinoedd, Esgobion, etc. At Gyhoeddwr y Geirgrawn', *Y Geirgrawn: Neu Drysorfa Gwybodaeth*, VI (1796), 237. Gweler hefyd Löffler, *Welsh Responses*, tt. 49–51; eadem (gyda Jenkins), *Political Pamphlets*, tt. 55–61.

<sup>41</sup> Evans, *Dylanwad y Chwyldro Ffrengig*, t. 149.

<sup>42</sup> Gweler, e.e., Gregory Claeys, *The French Revolution Debate: The Origins of Modern Politics* (Basingstoke, 2007); Janes Hodson, *Language and Revolution in Burke, Wollstonecraft, Paine, and Godwin* (Aldershot, 2007).

gwreiddioldeb y defnydd a wnaed o stori Gwrtheyrn.<sup>43</sup> Nid oedd gwreiddioldeb Jac Glan-y-gors yn gyfyngedig i'r darnau a gyfansoddodd yn y Gymraeg yn unig, serch hynny. Amlygodd ei ddawn hefyd yn y darnau a oedd yn seiliedig ar destunau ffynhonnell Saesneg.

Nodir yn *Political Pamphlets and Sermons from Wales* y rhannau o *Seren tan Gwmmwl* a *Toriad y Dydd* sy'n gyfieithiadau o frawddegau, o ddarnau cyfan neu o ddelweddau a throsiadau o weithiau cyhoeddedig Paine, wedi eu cartrefoli i'r Gymraeg.<sup>44</sup> Y mae'n arwyddocaol fod un ohonynt, darn o gyfrol gyntaf *Rights of Man*,<sup>45</sup> wedi ei osod yng nghanol testun *Seren tan Gwmmwl*, yn uchafbwynt bywiog, diriaethol ac uniongyrchol ei arddull. Egyr testun *Seren tan Gwmmwl* ag esboniadau ar rôl brenhinoedd yn y Beibl a hanes cywilyddus y brenin Cymreig Gwrtheyrn, cyn symud i'r darn canolog ar natur gyffredinol breniniaethau etifeddol, ac yna i ail ran y pamffled, sef hanes brenhinoedd Lloegr, llywodraeth Lloegr, a'r cysylltiadau rhwng rhyfel, trethi a thlodi yn y deyrnas. Tystia'r darn canolog i strategaeth Jac o fynegi cysyniadau gweriniaethol haniaethol Saesneg mewn ffordd y gellid eu hadwaen gan werin Gymru. 'Ymgais yr awdur oedd ysgrifennu at ddealltwriaeth pob Cymro', gan ddefnyddio geiriau 'gordderchaid' heb fod yn rhy lenyddol i'r werin eu ddeall, yn ôl rhagair Jac.<sup>46</sup> Felly, cadwodd drosiad cyffredinol y goron yn y darn, 'a thing in imagination' yn ôl Paine, a'r thema o hud a lledrith perfformwyr cyhoeddus y mae'r gynulleidfa yn eu gwyllo ac yna'n talu am eu perfformiad, eu hesgus o realiti. Ond newidir ieithwedd a chynnwys y testun yn syfrdanol drwy eu haddasu i ddiwylliant y Cymro cyffredin, tlawd, ac i amgylchiadau'r rhyfel nad oedd wedi cychwyn eto pan bennwyd *Rights of Man* yn ateb i bamffled gan Edmund Burke. Disodlir y cwestiynau rhethregol a ddefnyddir yn fynych gan Paine gan atebion; yn lle

---

<sup>43</sup> Damian Walford Davies, *Presences that Disturb. Models of Romantic Identity in the Literature and Culture of the 1790s* (Cardiff, 2000), tt. 76–8.

<sup>44</sup> Löffler (gyda Jenkins), *Political Pamphlets*, tt. 56–7; 156 nn. 25, 33; 157 n. 42; 189 nn. 2, 3, 4, 6, 8, 14.

<sup>45</sup> Thomas Paine, *Rights of Man Being an Answer to Mr Burke's Attack on the French Revolution*, yn Mark Philp (gol.), *Thomas Paine. Rights of Man, Common Sense and Other Political Writings* (Oxford, 1998), tt. 172–5.

<sup>46</sup> Löffler (gyda Jenkins), *Political Pamphlets*, tt. 111–12.

sôn am atwrneiod a dosbarthu eiddo ‘B’ i ‘C’ gan ‘A’ drwy wneud ewyllys, ceir esiamplau a throsiadau o fywyd cyffredin; yn lle rhestru cysyniadau haniaethol ceir cymariaethau diriaethol. Yn dilyn ystyriaethau cyffredinol am freniniaethau etifeddol, er enghraifft, gofynna Paine res o gwestiynau rhethregol yn ei destun:

But, after all, what is this metaphor called a crown, or rather what is monarchy? Is it a thing or is it a name or is it a fraud? Is it ‘a contrivance of human wisdom’, or of human craft to obtain money from a nation under specious pretences? Is it a thing necessary to a nation? If it is, in what does that necessity consist, what services does it perform, what is its business, and what are its merits? Doth the virtue consist in the metaphor, or in the man? Doth the goldsmith that makes the crown, make the virtue also? Doth it operate like Fortunatus’s wishing-cap, or Harlequin’s wooden sword? Doth it make a man a conjuror? In fine what is it?<sup>47</sup>

Atebion a geir yn rhan fwyaf o’r testun Cymraeg sy’n llawer iawn yn hwy, a Jac yn uniaethu â’i gynulleidfa am yr unig dro yn ei bamffled drwy ddefnyddio ‘ni’ pan fo’n cyfaddef nad yw ef yn deall ychwaith sut, drwy ‘ryw rinwedd ryfeddol o’r tywyll i ni, ag sydd yn y tegan a elwir y goron’, y gwneir dyn yn frenin. Ei gollfarniad yw:

Nid ydyw’r goron ddim ond rhyw degan a debygir ei fod ar ben y brenin; ac yr ydys yn rhoddi’r tegan yma ar ben dyn a fyddir yn amcanu gwneuthur brenin o hono. Felly pan roddir y tegan yma ar ben dyn, ac i’r esgobion wneuthur araith wrth ei ben ef, a gwneud iddo dyngu rhyw ychydig; (ac yr ydwyf fi yn meddwl y bydd rhai’n rhegu hefyd ar yr achos,) mae’r dyn trwy ryw rinwedd ryfeddol o’r tywyll i ni, ag sydd yn y tegan a elwir y goron, ac yn yr araith mae’r esgobion yn ei wneud, mae dyn yn dyfod yn frenin. Mae llawer o bethau eraill yn perthyn i’r achos pwysfawr yma: enneinio corph y dyn ag olew, neu ei iro ef fel iro penddwyn, er bod iro cnawd dyn iach yn beth pur afreidiol; ond os bydd rhyw beth am boen, mae pob gweithred ynfyd yn cael edrych arni’n angenrheidiol, ac yn llesol i roi gorchudd ar lygaid y cyffredin; felly mae’r esgobion yn gwneuthur brenin, a’r brenin yn gwneuthur esgobion, i gael lle i lechu mewn awdurdod, naill yng nghysgod y llall; a’r bobl yn synnu wrth edrych a thalu am eu gweithredoedd hwy.<sup>48</sup>

Wedi disgrifio’r proses o greu brenin mewn ffordd atgas-weledol o feddygol, ceir cyffelybiaeth rhwng y bobl sydd ynghlwm wrth y proses â pherfformwyr garw anterliwtiau, am fod ‘newid

---

<sup>47</sup> Ibid., t. 175.

<sup>48</sup> John Jones, *SEREN TAN GWMMWL, NEU YCHYDIG SYLW AR FRENHINOEDD, ESCOBION, ARGLWYDDI &c. A LLYWODRAETH LLOEGR YN GYFFREDIN. Wedi ei ysgrifennu er mwyn y Cymru uniaith* (Lundain, 1795), yn Löffler (gyda Jenkins), *Political Pamphlets*, tt. 119–20.

henwau pobl, wrth eu gwneuthur yn frenhinoedd, neu'n esgobion, yr un fath ag y bydd chwaryddion *Enterlute* yn newid eu hunain yng Nghymru'. Yn y rhan hon – yn wahanol i waith Paine ac ysgrifenyddyr radicalaidd eraill y cyfnod – y mae'r bobl gyffredin yn siarad, gan amlygu'r proses o dwyll:

'Daccw'r dynion yn dyfod'; neu 'Dyma ddyn sydd yn myned i chwareu'; ond pan roddo'r dyn hwnnw syrcyn brith am dano, a rhyw gap ddigrifol am ei ben, ni henwir 'mo hono'n ddyn ddim yn rhagor; mi fydd yr holl blant yn dechreu galw ar eu gilydd, ac yn dweud, 'Dowch, dowch, i wrando, daccw'r ffwl ar y daflod'. Er nad oes fodd i roi dim dysg, na dawn, na gwybodaeth yn y tegau a elwir yn goron, mwy nag y gellir roi ysmaldod a digrifwch mewn cap *ffwl*, etto mae'r dynion a fo'n eu gwisgo hwy yn cael henwau neillduol, ac yr ydys yn disgwyl i'r dynion a fo'n gwisgo hwy, i un fod yn gall ac yn ddysgedig, a'r llall yn ysmala a digrifol; a phwy bynnag a ddigwyddo wisgo'r tegau uchod, mi ddisgwylir ganddynt yr un doniau. Wrth hynny gellir meddwl mai yn y cap, a'r goron mae'r synwyr, a'r digrifwch.<sup>49</sup>

Disodlwyd dau ffigur estron y testun ffynhonnell a'u petheuach hudol – sef Fortunatus, cymeriad chwedl modern cynnar a dderbyniodd bwrs diwaelod a het hudol gan dduwies ffortiwn,<sup>50</sup> a'r Harlequin, prif gymeriad comedïau 'Harlequinade' yr oedd yn cyflawni hud a lledrith gyda'i bastwn neu gleddyf<sup>51</sup> – gan ffŵl yr anterliwt Gymraeg. Y mae'n werth cofio i'r anterliwt *Marwolaeth Brenin a Brenhines Ffrainc*, ac iddi 'elfen bolemig' yn ôl ei golygydd Ffion Mair Jones, gael ei chyfansoddi tua 1795, yr un flwyddyn ag y cyhoeddwyd *Seren tan Gwmmwl*, ac y mae ffŵl yr anterliwt hon yn gymeriad hyddysg sy'n darllen papurau newydd.<sup>52</sup> Bu Jac Glan-y-gors yn teithio'n ôl ac ymlaen rhwng Llundain a gogledd-ddwyrain Cymru ac nid yw'n amhosib i'r ddau destun ddylanwadu ar ei gilydd. Dim ond dau gwestiwn ar ddiwedd yr ail ran sy'n weddill yn addasiad Jac, ac y maent yn cloi'r gymhariaeth o'r goron â chap y ffŵl, gan awgrymu ateb:

---

<sup>49</sup> John Jones, *SEREN TAN GWMMWL*, yn Löffler (gyda Jenkins), *Political Pamphlets*, t. 120.

<sup>50</sup> Ceir chwedl Fortunatus am y tro cyntaf mewn llyfryn Almaeneg a gyhoeddwyd yn Augsburg ym 1509, yn ymgorffori cymeriadau canoloesol. Ymddangosodd y chwedl yn Saesneg ar ffurf y ddrama 'The Pleasant Comedie of Old Fortunatus' gan Thomas Dekker ym 1599.

<sup>51</sup> David Mayer, 'Pantomime British', yn Dennis Kennedy (gol.), *Oxford Encyclopedia of Theatre and Performance* (2 gyf.; Oxford, 2003), tt. 995–6.

<sup>52</sup> Ffion M. Jones (gol.), *Y Chwyldro Ffrengig a'r Anterliwt. Bywyd a Marwolaeth Brenin a Brenhines Ffrainc gan Hugh Jones, Glanconwy* (Caerdydd, 2014), tt. 3, 5.

Os oes neb yn meddwl fod y dynion uchod yn perchen cymmaint synwyr, a digrifwch un heb y goron, a'r llall heb ei gap, i ba beth mae'r cap a'r goron da? I synnu pobl gyffredin, ac i'w hudo hwy i ymadael a'u harian?<sup>53</sup>

Yn nhrydedd ran y darn, ceir esboniad ychwanegol sy'n symud y ddadl yn erbyn breniniaethau etifeddol o'r haniaethol i'r adwaeniol, Cristnogol. Yr oedd Jac yn gwybod 'mor hoff yw fy nghydwladwyr ddarllen y Bibl',<sup>54</sup> beth bynnag oedd ei ddaliadau crefyddol ei hun. I argyhoeddi'r Cymry, felly, yr oedd yn bwysig dadlau nad oedd doniau yn etifeddol o dan ras Duw:

Ond mae lle gwell i ddisgwyl digrifwch gan y gwr a'r cap nag y sydd i ddisgwyl synwyr gan wr y goron, o herwydd wrth ei anian ei hun mae dyn yn myned yn chwarydd enterlute; un i ddeg i'w dad ef feddwl am y fath beth, nag i'w fab ef feddwl fyth am ganu na chwareu ar ei ol ef; ond y mae'r goron yn disgyn o dad i fab, pa un bynnag ai synhwyrol, ai peidio; ac mi wyr pawb nad yw synwyr a doniau ddim yn cerdded o dad i fab. Ni wŷyr neb pan fo dyn doniol marw, ymha gwr i'r wlad i ddisgwyl ei ail ef. Ac os digwydd iddynt farw heb orphen gwneuthur cerdd o un pennill, ni wiw disgwyl i'w plant, na'u hwyrion hwy orphen hynny. Felly ynfydrwydd ydyw disgwyl i ddoniau ganlyn yn yr un genhedlaeth. Mae'r goruchaf i ddangos ei gyfiawnder, a'i uniondeb ei hun, yn rhoi rhyw ddoniau a synwyr neillduol i'r dyn tylottaf o ran pethau bydol; ac nid gwiw i wr mawr a fyddo wedi cael ei eni yn arglwydd feddwl dweud, nac ysgrifennu mor synhwyrol a'r dyn tlawd, er iddo iro ei ben, a gwisgo ei ferwisg fawr, a gwnau, a llawer o deganau o'r fath, gan ddisgwyl i bobl feddwl ei fod ef yn synhwyrol, o herwydd ei wisgiad: yn un fath ag y bydd merch ieuanc a fyddo heb fawr harddwch na chynnysgaeth ganddi, yn gwisgo'n rhyfeddol o'r gwych, i edrych a fedr hi dwyllo rhyw ddyn diniwaid wrth ei dillad. Y peth rhyfeddaf sydd yn perthyn i'r goron ydyw'r awdurdod ag sydd yn llaw'r dyn a fo'n ei gwisgo hi. Heblaw rhannu rubanau, a gwneuthur arglwyddi, a rhyw chwareu plant yn y pistyll o'r fath hynny, mae'r brenin yn ben barnwr Lloegr; ac efe ydyw'r ffynnon, lle meddylir fod yr holl farnwyr yn tarddu allan o honi. Mae gan y brenin allu i wneuthur rhyfel a'r deyrnas a fynno, heb na chennad, na chyngor gan undyn; ac i wneuthur heddwch pan welo ef yn dda ei hun. Geill hefyd wneuthur undeb a'r deyrnas a fynno, yn y modd y gwelo ef yn dda ei hun. Mae ganddo awdurdod i roi allan gyhoeddiad am godi dynion, arfau, ac arian i gynnal ac i gynnorthwyo pobl isel radd, i ryfela, ac i saethu at benau eu gilydd, ac i ddarnio, ac i ladd eu gilydd tra gwelo ef yn dda.<sup>55</sup>

Yn y darn olaf yma, disgrifia Jac bwerau'r brenin mewn ffordd berthnasol iawn i werin gogledd Cymru a godasai yn erbyn presgangiau swyddogion y brenin sawl gwaith ym 1795.

---

<sup>53</sup> John Jones, *SEREN TAN GWMMWL*, yn Löffler (gyda Jenkins), *Political Pamphlets*, t. 120.

<sup>54</sup> *Ibid.*, t. 113.

<sup>55</sup> *Ibid.*, t. 121.

Fel Eiddil, dewisa Jac ei eiriau yn ofalus er mwyn gwthio popeth yn ymwneud â'r goron a'r brenin i fyd y smalio, y plant, a'r gwallgof. Yn dilyn Paine cymherir y 'goron' â chap y ffŵl, ond â ymhellach drwy ei alw'n '[d]egan' saith gwaith yn y testun, sef 'peth a lunnir er difyrrwch yn hytrach na defnydd ymarferol',<sup>56</sup> ar gyfer plant gan amlaf, yn hytrach na chyfieithu 'thing' y testun Saesneg fel 'peth'. Yn yr un modd, cymherir dyletswyddau'r brenin â 'chwareu plant yn y pistyll', gan gysylltu'r frenhiniaeth â byd y plant eto, sydd, yn debyg i'r brenin ifanc yn chwedl Eiddil, angen goruchwyliaeth gan y werin. Y mae'r holl broses o etifeddu pŵer brenhinol yn cael ei ddisgrifio fel un 'ynfyd', barn a adleisir yn rhan olaf y darn, pan esbonnir mai 'ynfydrwydd ydyw disgwyl i ddoniau ganlyn yn yr un genhedlaeth',<sup>57</sup> fel mewn manau eraill yn y pamffled. Cartrefolir y cyfieithiad yn drwyadl gan geisio ffordd arbennig o werinol i fynegi collfarn. Cymherir gweithred eneinio'r brenin newydd â thrin ploryn, nes yn lle'r eneinio urddasol, y mae'r brenin yn cael 'ei iro ef fel iro penddwyn',<sup>58</sup> delwedd lem. Diddorol sylwi i Jac Glan-y-gors ddefnyddio gair tafodieithol ei ardal, 'pendduyn' (wedi ei gamsillafu), o bosib i gartrefoli i gynulleidfa ddaearyddol benodol.<sup>59</sup> Ceir defnydd o eiriau tafodieithol, esboniad arnynt, neu greu cyfieithiadau i wahanol ardaloedd yng Nghymru gan gyfieithwyr eraill y cyfnod. Yn ei gyfieithiad o'r newyddion yn rhifyn tri o'r *Cylch-grawn Cymraeg*, er enghraifft, defnyddir 'cann' gan Morgan John Rhys, sef y gair am 'blawd' y byddai ef a'i gynulleidfa yn Sir Forgannwg a Sir Gâr yn gyfarwydd ag ef.<sup>60</sup> Ond gan ei fod am i'r cylchgrawn deithio i'r gogledd hefyd, rhoddir 'cann (*flour*)' fel esboniad, yn yr un ffordd ag yr esbonnir geiriau gwleidyddol newydd yn ei waith, a gwaith awduron eraill y cyfnod.<sup>61</sup> Gellir tybio iddo fod yn ymwybodol

---

<sup>56</sup> Gweler *GPC*, d.g. 'tegan'.

<sup>57</sup> Jones, *SEREN TAN GWMMWL*, yn Löffler (gyda Jenkins), *Political Pamphlets*, tt. 115, 120, 122.

<sup>58</sup> Gweler *GPC*, d.g. 'pendduyn'.

<sup>59</sup> Am ddsbarthiad 'pendd(ü)yn', gweler Alan R. Thomas, *The Linguistic Geography of Wales* (Cardiff, 1973), t. 223. Gwall yr argraffydd yw 'penddwyn'.

<sup>60</sup> *Ibid.*, t. 172.

<sup>61</sup> [Morgan John Rhys], 'Newyddion pellenig a Chartrefol', *Cylch-grawn Cymraeg*, 3 (1793), 178.



o fodolaeth geiriau megis ‘fflŵr’ a ‘blawd’ yn y canolbarth a’r gogledd, ond prisiodd y gair Saesneg o ran ei botensial i egluro ‘can[n]’, arwydd o statws uchel yr iaith drefedigaethol Saesneg a arferid yn anymwybodol, hyd yn oed gan radicaliaid Cymru.

Ymddengys yr un strategaeth o Gymreigio syniadau gweriniaethol mewn mannau eraill yn y ddau bamffled. Newidia Jac fynegiannau haniaethol i rai adwaeniol, er enghraifft drwy gyfeirio at fywyd beichus y werin, drwy gymariaethau ag anifeiliaid pwn, a thrwy droi’r cyfeiriadau at wareiddiadau clasurol y mae Paine yn eu dyfynnu i rai ysgrythurol. Egyr *Toriad y Dydd*, er enghraifft, â chyfieithiad o ddarn enwog o ddechrau *Common Sense*. Ysbrydolwyd Jac Glan-y-gors, fel ysgrifenydd gwleidyddol eraill y cyfnod, gan olygfa Paine o ryw ‘sequestered part of the earth’, neu ‘ynys anghyfannedd’, fel *tabula rasa* i natur dyn amlygu ei hun. Unwaith eto, y mae llif esboniad yr angenrheidrwydd o gydweithio er mwyn goroesi a datblygiad cyrff llywodraethol yn debyg yn y ddau destun. Eithr, y mae’r Gymraeg yn fwy syml, a’r cyfieithydd wedi newid cyfeiriad y gweithredu. Yn *Common Sense*, y mae’r dynion ar ynys anghysbell yn ystyried yr angen i gydweithio mewn ffordd anhygoel o haniaethol, ond hefyd oddefol:

In this state of natural liberty, society will be their first thought. A thousand motives will excite them thereto, the strength of one man is so unequal to his wants, and his mind so unfitted for perpetual solitude, that he is soon obliged to seek assistance and relief of another, who in his turn requires the same. ... Thus necessity, like a gravitating power, would soon form our newly arrived emigrants into society ...<sup>62</sup>

Darn yn llawn geiriau Lladin anodd eu hamgyffred, a dyn yn y pen draw yn wrthrych i angenrheidrwydd sydd yn disgyn arno drwy rym disgyrchiant. Ceir neges symlach yn y Gymraeg, ac osgo’r gair ‘cymdeithas’ gan sôn am yr ‘undeb’ a’r ‘cyfeillach’ er ‘lles a daioni’ y mae dyn ei hun yn eu creu:

---

<sup>62</sup> Thomas Paine, *Common Sense. Of the Origin and Design of Government in General. With concise Remarks on the English Constitution*, yn Philp (gol.), *Thomas Paine*, t. 6.

Dyma lle byddai yn rhydd, ac yn deg i bob un chwilio am ymborth iddo ei hun; hyn a wnae iddynt ymwahanu oddiwrth eu gilydd am ychydig amser, ond er mwyn lles a diogelwch pob un o honynt, hwy a unent efo eu gilydd i ddyfod i'r un llanerch at yr hwyr, i gael iddynt fod yn fwy calonog a chadarn, i wynebu bwystfilod a ddigwyddai ddyfod yn agos at eu gorweddfa yn y nos. Dyma lle'r ydym yn gweled yn y cychwyn mor angenrheidiol a brawdol i ddynolryw fod mewn undeb a chyfeillach a'u gilydd, er lles a daioni y cwbl yn gyffredin, ac nid er mwyn i'r naill ysbeilio a byw ar lafur y llall.<sup>63</sup>

Ar ddiwedd y darn, pan ddynoda'r testun Saesneg amcan unrhyw lywodraeth megis 'viz. Freedom and security' mewn hanner brawddeg,<sup>64</sup> esblyga Jac unwaith eto i esbonio'r rhaniad rhwng cyrff deddfwriaethol a llywodraethol gan gynnig brawddeg am eu pwrpas a'u hamcan hwy a chynnwys yr allweddeiriau 'undeb' a 'brawdgarwch' eto:

A dyna, wedi yr holl drwst a'r cythryfwl, feddwl ac amcan a'r diben, mae sefydliad llywodraeth yn ei ateb; sef, diogelu, a sicrhau i bob dyn, ei FREINTIAU ANIANOL, a'i ryddit i fwynhau ffrwyth ei lafur ei hun yn ddi ormes; ac er mwyn ceryddu, neu gopsi y rhai drygionus, ac er mwyn anrhydedd, a diofalwch y rhai daionus, ac er mwyn cynnyddu cynneddfau da, ac undeb, a chariad, a brawdgarwch, a mynwesol gyfeilliach yn eu plith, fal y byddont yn hynaws, a moesol, a charedigol i gynnorthwyo naill y llall, er lleshad a dedwyddwch y cwbl yn gyffredin.<sup>65</sup>

Y mae hi'n amlwg i Jac ddarllen ymlaen yn *Common Sense*. Ar ddechrau'r rhan nesaf ar 'Monarchy and Hereditary Succession', collfarna Paine y drefn o rannu pobl yn frenhinoedd a deiliaid yn nhermau natur a'r nefoedd, gan dynnu ar eirfa newydd gwyddoniaeth eto:

Male and female are the distinctions of nature, good and bad the distinctions of heaven; but how a race of men came into the world so exalted above the rest, and distinguished like some new species, is worth enquiring into.<sup>66</sup>

Ar gyfer y gynulleidfa Gymraeg, y mae cyfeiriadau at berchnogi anifeiliaid a'r Beibl yn fwy effeithiol. Er bod rhai yn mynnu bod:

---

<sup>63</sup> John Jones, *TORIAD Y DYDD; NEU SYLW BYR AR HEN GYFREITHIAU AC ARFERION LLYWODRAETHOL: YNGHYD A CHRYBWYLLIAD AM FREINTIAU DYN, &c. WEDI EI YSGRIFENNU ER MWYN Y CYMRY UNIAITH* (Llundain, 1797), yn Löffler (gyda Jenkins), *Political Pamphlets*, tt. 162–3.

<sup>64</sup> Paine, *Common Sense*, yn Philp (gol.), *Thomas Paine*, t. 7.

<sup>65</sup> Jones, *TORIAD Y DYDD*, yn Löffler (gyda Jenkins), *Political Pamphlets*, t. 164.

<sup>66</sup> Paine, *Common Sense*, yn Philp (gol.), *Thomas Paine*, t. 11.

dwy radd o ddynion yn y byd, ac fod i'r naill ddyn fod yn berchenog ar y llall, yr un fodd ag y mae dyn yn berchenog ar anifail; ond nid felly y creuwyd dynolryw: nid yn frenin a deiliaid, nid yn orthrymwr a chaethwas, nid yn dylawd a chyfoethog, nid i un dyn alw myrddiwnau o'i gyd-greaduriaid, yn bobl, neu'n eiddo iddo ef. Nid ydyw yr rhagoriaethau uchod, ond dyfeisiau a damweiniau dynol; cymmaint o ragoriaeth a welir yn y greadigaeth; ydyw, 'yn wryw, ac yn fenyw y creodd efe hwynt'.<sup>67</sup>

Nid oes lle yma i ychwanegu esiamplau eraill o *Seren tan Gwmmwl a Toriad y Dydd*, ond gobeithio fy mod wedi arddangos yr amcan didactig a oedd gan Jac Glan-y-gors, a'r dechneg a ddefnyddiodd i gartrefoli'r darnau a gyfieithodd er mwyn lledaenu'r neges weriniaethol ymhlith y Cymry uniaith.

#### *Trafod cyfieithu yn oes y Chwyldro*

Nid Jac Glan-y-gors oedd yr unig un a briodolodd syniadau radicalaidd America, Ffrainc a Lloegr i ddiwylliant, crefydd ac iaith y Cymry yn sgil Chwyldro Ffrengig 1789. Fe sylwir bod y rhan fwyaf o awduron radicalaidd y cyfnod naill ai'n cyfieithu ac addasu, neu yn myfyrio'n ddwys am y weithred, gan ei gweld yn anodd neu'n amheus yn amlach na pheidio. Bu Thomas Paine ei hun ystyried anawsterau trosglwyddo negeseuon gwleidyddol i iaith a diwylliant arall yn ei *Age of Reason*:

Scarcely any two nations speak the same language, or understand each other; and as to translations, every man who knows any thing of languages, knows that it is impossible to translate from one language into another, not only without losing a great part of the original, but frequently of mistaking the sense.<sup>68</sup>

Adlais o hyn, mae'n bosib, yw myfyrdod preifat Iolo Morganwg fod:

Those who know how difficult it is very often to translate, even with the greatest deliberation, will not wonder at some uncouth expressions that occur unavoidably from translating at the instant of writing into one language what is uttered in the other.<sup>69</sup>

---

<sup>67</sup> Jones, *TORIAD Y DYDD*, yn Löffler (gyda Jenkins), *Political Pamphlets*, t. 166; Genesis 1: 27.

<sup>68</sup> Thomas Paine, *The Age of Reason. Being an Investigation of True and Fabulous Theology* (New-York, 1794), tt. 64–5.

<sup>69</sup> LIGC Llsg. 2137D, f. 15.

O gofio'r drafodaeth ynghylch *Seren tan Gwmmwl* a chyfieithu yn y *Geirgrawn*, coda'r posibilrwydd diddorol, felly, i Peter Bailey Williams a Iolo Morganwg, dau ddyn ar begynau eithaf sbectrwm gwleidyddol Cymru a'r Deyrnas Unedig, astudio *Age of Reason* tua'r un pryd. Nid oedd Iolo'n gyfieithydd mawr i'r Gymraeg,<sup>70</sup> ond gwyddai'n iawn am botensial y weithred, gan ddefnyddio'r ddyfais o ffug-gyfieithu i honni bod cerddi megis 'John Bull's Litany' yn 'Translated from the Ancient British'.<sup>71</sup> Cafodd sylwadau tebyg ar anawsterau cyfieithu eu datgan mewn ffordd fwy gwerinol gan Thomas Roberts, Llwynrhudol, a ysgrifennodd mai 'y peth sydd ber-arogl mewn un iaith a ddrewa wrth ei gyfieithu yn ôl y llythyren i iaith arall' yn ei bamffled *Cwyn yn erbyn Gorthrymder*, ble y cysylltodd gyfieithu gwael ag anghyfiawnderau gweithredu cyfraith Prydain yng Nghymru yn ogystal.<sup>72</sup> Fel y gwelwyd hefyd yn rhagarweiniadau Eiddil a Jac Glan-y-gors a'r drafodaeth ynghylch *Seren tan Gwmmwl*, yr oedd datganiadau ar sut i gyfieithu er mwyn y Cymry uniaith a'r iaith Gymraeg yn gyffredin yn y cyfnod.<sup>73</sup>

### *Tomos Glyn Cothi, ei gyfeillion a mewnforio syniadau radicalaidd*

Aeth eraill ati'n dawel i ymarfer egwyddorion y ddisgwrs hon, gan gyfieithu testunau a oedd o fewn eu cyrraedd ac yn ddeniadol i'w hargyhoeddiadau crefyddol a gwleidyddol. Y mae *Cylchgrawn Cymraeg* Morgan John Rhys a'i bregethau ef yn llawn addasiadau o waith Bedyddwyr

---

<sup>70</sup> Eto i gyd, cynhyrchodd gyda'i *Poems Lyric and Pastoral* waith sydd wedi cael ei alw'n 'radical bilingual text'. Gweler Heather Williams, 'Iolo Morganwg, Edward Williams and the Radically Bilingual Text: Poems Lyric and Pastoral (1794)', *International Journal of Welsh Writing in English*, 2 (2014), 147–67.

<sup>71</sup> LIGC Llsgr. 21401, 'Poetry and Political Material', ff. 1, 12; Mary-Ann Constantine ac Elizabeth Edwards, "'Bard of Liberty": Iolo Morganwg, Wales, and Radical Song', yn John Kirk, Andrew Noble a Michael Brown (goln.), *United Islands? The Languages of Resistance* (London, 2012), tt. 72–3. Am ystyr a photensial y cysyniad o 'ffug-gyfieithu' neu 'pseudo-translation', gweler Gideon Toury, 'Translation, Literary Translation and Pseudotranslation', *Contemporary Criticism*, 6 (Cambridge, 1984), 73–85.

<sup>72</sup> Thomas Roberts, *CWYN YN ERBYN GORTHRYMDER, Yn ghyd a Sylwiadau ar hawl ESGOBION, a'u Gweinidogion i DDEGYMAU, &c. WEDI EI YSGRIFENU ER MWYN Gwerinos Cymru* (Llundain, 1798), yn Löffler (gyda Jenkins), *Political Pamphlets*, t. 178.

<sup>73</sup> Ceir sylwadau ar gyfieithu i'r Cymry hefyd yn rhagarweiniadau cyfieithwyr y Beibl a'r Dadeni. Gweler Garfield H. Hughes, *Rhagymadroddion 1547–1659* (Caerdydd, 1976), tt. 27, 56–7, 89.

gwleidyddol a ddefnyddid ganddo hefyd i ddatblygu geirfa wleidyddol fodern i'r Gymraeg.<sup>74</sup> Nid oes lle yma i drafod ei arddull a'i amcanion, nac ychwaith waith William Richards, Lynn, fel cyfieithydd, awdur dwyieithog, a geiriadurwr,<sup>75</sup> er yr haedda gwaith y ddau ym meysydd cyfieithu a datblygu geirfâu gwleidyddol sylw manwl. Hoffwn droi at un arall a fu'n weithgar yn ne-orllewin Cymru, Thomas Evans neu Tomos Glyn Cothi, gwehydd ac arloeswr crefyddol, y cyntaf i bregethu Undodiaeth yng Nghymru, awdur a aeth i'r carchar dros ei argyhoeddiadau gwleidyddol. Yr oedd yn gyfaill i David Davis (Castell-hywel), Iolo Morganwg ac Edward Evan, ac yn rhan annatod o rwydweithiau radical-grefyddol a barddol de-orllewin Cymru.<sup>76</sup> Dedfrydwyd ef i ddwy flynedd o garchar ym 1801 am ganu cân ymfflamychol,<sup>77</sup> ond dengys dogfennau yr achos llys yn ei erbyn ac erledigaeth bellach yn ystod ei amser yn y carchar, mai sail yr erlid oedd ei lwyddiant yn lledaenu syniadau radicalaidd, 'amongst the people of this country from his abilities in writing in the Welch language'.<sup>78</sup> Yn ddigwestiwn, Tomos Glyn Cothi oedd prif ladmerydd athrawiaeth Undodiaeth i'r Gymraeg. Rhwng 1792 a 1824, cyfieithodd wyth o destunau gan yr Undodwyr blaengar Joseph Priestley, Theophilus Lindsay a William Friend i'r Gymraeg, gan eu cyhoeddi fel pamffledi neu eu cynnwys yn ei gylchgrawn, *Y Drysorfa Gymmysgedig*.<sup>79</sup> Yno hefyd y cyhoeddodd gyfieithiadau amlycach wleidyddol, gan

---

<sup>74</sup> J. J. Evans, *Morgan John Rhys a'i Amserau* (Caerdydd, 1935), tt. 125–35; Hywel M. Davies, 'Morgan John Rhys and James Bicheno: Anti-Christ and the French Revolution in England and Wales', *Bulletin of the Board of Celtic Studies*, XXIX, rhan I (1980), 111–27; Löffler, *Welsh Responses*, tt. 46–7; eadem (gyda Jenkins), *Political Pamphlets*, tt. 16–17; Mary-Ann Constantine, 'The Welsh in Revolutionary Paris', yn eadem a Johnston (goln.), *Footsteps of Liberty and Revolt*, tt. 75–8.

<sup>75</sup> Ond gweler R. T. Jenkins, 'William Richards o Lynn', *Cymdeithas Hanes Bedyddwyr Cymru Trafodion 1930* (1930), 17–68; John Oddy, *The Writings of the Radical Welsh Baptist Minister William Richards (1749–1818) Selected, Edited and, Annotated with an Introduction* (Lampeter, 2008).

<sup>76</sup> Geraint Dyfnallt Owen, *Thomas Evans (Tomos Glyn Cothi). Trem ar ei Fywyd* (s.l., 1963).

<sup>77</sup> G. J. Williams, 'Carchariad Tomos Glyn Cothi', *Llên Cymru*, III (1954–55), 120–2; Geraint H. Jenkins, "'A Very Horrid Affair": Sedition and Unitarianism in the Age of Revolutions', yn R. R. Davies a Geraint H. Jenkins (goln.), *From Medieval to Modern Wales: Historical Essays in Honour of Kenneth O. Morgan and Ralph A. Griffiths* (Cardiff, 2004), tt. 175–96.

<sup>78</sup> LIGC Llsg. 2137D, ff. 3; PRO H.O. 47/27 Judge's Report, 20 March 1802; PRO H.O. 42/44, 23 November 1802, yn Owen, *Thomas Evans*, tt. 62–4.

<sup>79</sup> Daniel Lleufer Thomas, *Cyfieithiadau Dienw Tomos Glyn Clothi (Y Parch. Thomas Evans, 1764–1833)* (Caerfyrddin, 1931); Irene George, 'Tomos Glyn Cothi', *The Journal of the Welsh Bibliographical Society*, IV/3 (1933), 106–11; [Thomas Evans], 'Y Bibell, gan Dr. Franklin', *Y Drysorfa Gymmysgedig*, II (1795), 49–51; idem, 'Annerch at Aelodau Eglwys Loegr, ac at Ddrindodiaid Protestanaidd yn Gyffredin Oll i'r Diben i'w Hannog Hwyt i Droï oddi wrth yr Addoliad Gau o Dri Bersonau i'r Addoliad o'r Un Gwir Dduw yn Saesonaeg gan W. Friend', *ibid.*, III (1795), 127–35.

guddio ffynonellau a defnyddio amrywiaeth o dechnegau i greu barddoniaeth a rhyddiaith Gymraeg rywiog.<sup>80</sup> Rhydd ei nodiadau helaeth mewn tri almanac o'i eiddo,<sup>81</sup> a'i unig lawysgrif sylweddol, 'Y Gell Gymysg',<sup>82</sup> olwg ar ei fyd deallusol tua 1797–8, ac ym 1814, 1817 a 1818.<sup>83</sup> Cofnododd ynddynt gerddi a baledi Cymraeg y bu'n eu hysgrifennu, darllen, canu, clywed a chyfnewid gyda chyfeillion, y pynciau y dewisodd bregethu arnynt a'r gynulleidfa, a'r arian a gasglwyd, enillwyd ac a wariwyd ganddo. Yn anad dim, copiodd yno ddarnau trawiadol a phwysig iddo o lyfrau, pamffledi, papurau newydd a chylchgronau a oedd o fewn ei gyrraedd, a'u cyfieithu fel rhan o'r gwaith paratoadol i'w gynyrchiadau gorffenedig a chyhoeddedig.<sup>84</sup> Y mae 'Y Gell Gymysg', yn enwedig, yn llawn testunau o'r *Cambridge Intelligencer*, 'the most liberal and outspoken periodical of its day',<sup>85</sup> a gyhoeddwyd gan yr Undodwr Benjamin Flower rhwng 1793 a 1803.<sup>86</sup> Ceir dyfyniadau yno hefyd o'r *Protestant Dissenter's Magazine*, ac o weithiau llw o awduron Saesneg, yn eu plith Locke, Watts a Godwin. Tuedda Tomos i nodi barddoniaeth yn yr iaith wreiddiol, ond fersiwn Cymraeg yn unig a geir ynghyd â darnau o ryddiaith wleidyddol yn aml. Ymddengys i'r 'cyfieithu cyfnewid' hwn, h.y. cyfieithu testun neu ddarn ar gyfer addasu a chyfieithu pellach yn yr un iaith,<sup>87</sup> fod yn rhan o broses rhyngieithol

---

<sup>80</sup> Ceir testun cyfieithiad o emyn a gweddi yn Löffler, *Welsh Responses*, tt. 47–9. Atgynhyrchir y testun fel gwaith David Davis, Castell-hywel, gan gymryd nad yw'n gyfieithiad, yn Charnell-White, *Welsh Poetry*, tt. 141–4, ond mae'n fwy tebygol mai gwaith Tomos Glyn Cothi ydyw.

<sup>81</sup> LIGC, Mân Gasgliadau, 312A, Almanac am y flwyddyn 1814; LIGC, Mân Gasgliadau 313A, Almanac am y flwyddyn 1817; LIGC Llgr. 21970A, Almanac am y flwyddyn 1818.

<sup>82</sup> LIGC Llgr. 6238A, 'Y Gell Gymysg'.

<sup>83</sup> O gofio'r erlid a'i amser yng ngharchar Caerfyrddin, y mae'n ddealladwy i'w wraig ddinistrio'r deunydd ymfflamychol, a gwyddom iddo orfod gwerthu llawer o lyfrau oherwydd prinder arian ym 1804. Gweler 'Thomas Evans, Pen-pistyll, at Edward Williams, Flimston, 12 Gorffennaf 1804', yn Geraint H. Jenkins, Ffion Mair Jones a David Ceri Jones (goln.), *The Correspondence of Iolo Morganwg Volume II 1797–1809* (Cardiff, 2007), t. 615.

<sup>84</sup> Ceir cyfieithiadau gorffenedig nas cyhoeddwyd mewn llawysgrifau hefyd, e.e. 'Hymn i'w chanu gan Orthrymwy'r Dynion ar eu Dyddiau Ymryd', cyfieithiad o 'Hymn for the Fast-Day to be Sung by the Privileged Orders of Europe', LIGC Llgr. 12365D, Alcwyn C. Evans 'Collectiana relating to the Town and County of Caermarthen', f. 526.

<sup>85</sup> J. E. Cookson, *The Friends of Peace. Anti-War Liberalism in England 1793–1815* (Cambridge, 1982), t. 92.

<sup>86</sup> Ceir casgliad helaeth o lythyrau Flower yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, gan i'r hynafiaethydd siroedd Caerfyrddin a Cheredigion a'r Undodwr pybyr, George Eyre Evans, ei brynu a'i roddi ar ei farwolaeth. Gweler Timothy D. Whelan (gol.), *Politics, Religion and Romance. The Letters of Benjamin Flower and Eliza Gould Flower, 1794–1808* (Aberystwyth, 2008).

<sup>87</sup> Am 'gyfieithu cyfnewid' yn yr ystyr hwn, gweler St André, 'Relay', tt. 230–2. Y mae hi'n bosib felly, yn y Gymraeg, i wahaniaethu rhwng 'cyfieithu dilynol' a 'c[h]yfieithu cyfnewid'.

o ddeall a chrynhoi testun a'i baratoi tuag at ddefnydd pellach. Ceir, er enghraifft, gyfieithiadau o lythyrau Napoleon, areithiau Sir Francis Corbett, a 'Deddf, neu Sefydliad Cymmanfa Ffraingc Mai 7 1794', heb nodi ffynhonnell na thestun Saesneg.<sup>88</sup> Ble y nodir y ffynhonnell, y mae'n goleuo'r ffyrdd y trosglwyddwyd syniadau newydd i Gymru a'r Gymraeg. Cofnododd ffynhonnell, er enghraifft, o dan y darn ar 'Hawl a Dyledswydd dyn', fel a ganlyn: 'Trenchard. the foregoing was translated from a Book named "The Manual of Liberty" printed 1795. Octavo, 406 pages'.<sup>89</sup> Ceir yr argraff iddo gyfieithu darn o gasgliad gan ryw Trenchard, ond y mae'r proses o drosglwyddo syniadau yn fwy cymhleth o lawer, gyda mwy nag un ffynhonnell. 'Translated' ysgrifenna Tomos, ond crynodeb a chyfansoddiad Cymraeg sydd yma o ddeg tudalen o ddyfyniadau yn y casgliad hwn o 'testimonies in behalf of the rights of mankind; selected from the best authorities, in prose and verse, and methodically arranged', a gyhoeddasid yn ddiennw ym 1795.<sup>90</sup> Fel yn achos chwedl Bersiaidd Eiddil, Saesneg yw iaith darnau'r gyfrol, ond ymhlith yr hanner cant o awduron a ffynonellau a restrir, y mae Cicero, Montesquieu, Montaigne, Voltaire a Rousseau yn ogystal â Burke, Swift, Shakespeare a Sterne. Ceir hefyd y *New Testament*, yr *Old Testament*, Macciavelli, 'the author of Common Sense',<sup>91</sup> y 'Pennsylvania Declaration of Rights', y 'King of Prussia', y *Morning Chronicle*, 'Old Italian Proverbs' a'r 'Reeves Crown and Anchor Association Paper'. Cadwyn cyfieithu dilynol a geir yma eto, a Tomos yn derbyn y testunau wedi'u hidlo drwy'r Saesneg ac wedi eu trefnu i fynegi tirwedd feddyliol radicaliaid Lloegr ac America. Y mae ef yn ei dro yn parhau'r proses hwn yn y Gymraeg. Yn wahanol i ymddangosiad cofnod Tomos, dwy ffynhonnell Saesneg sydd i'w fanifesto isod ar degwch cymdeithasol a rhyddid:

---

<sup>88</sup> LIGC Llgr. 6238A, ff. 47–9, 133–49, 162–7.

<sup>89</sup> LIGC Llgr. 6238A, ff. 101–2.

<sup>90</sup> Anhysbys, *The Manual of Liberty: or testimonies in behalf of the rights of mankind; selected from the best authorities, in prose and verse, and methodically arranged* (London, 1795). Y mae'r gyfrol ar gael yn ddigidol ar Eighteenth Century Collections Online.

<sup>91</sup> Y mae'n arwyddocaol i enw Thomas Paine gael ei hepgor gan olygydd y gyfrol.

1. Nis gall un Tad drosglwyddo i'w Fab yr hawl o fod yn ddi-ddefnydd i'w gyd-greaduriaid.
2. Mewn sefyllfa gymdeithasol yn yr hon y mae yn rhaid i bob un gael ei gynnal ar draul y gymdeithas, y mae'n ddyled ar bob un weithio gwerth ei gynhaliaeth a hynny heb edrych ar radd neu sefyllfa. Pob segurddyn, cyfoethog a thylawd, gwan a chryf, sydd ddihiryn, neu anonest ddyn.
3. Nid yw'r dyn sydd yn bwyta bara seguryd, heb ynnill ei gynhaliaeth, ddim gwell na lleidr; ac nid yw yr hwn sydd yn derbyn Tal (pension) am ddim gan lywodraeth, yn gwahaniaethu fawr oddi wrth leidr pen ffordd a fyddo yn byw war ei ysglyfaeth ledradaidd. Rousseau
4. Pob dyn sydd yn cael ei eni yn rhydd: – rhodd Duw yw rhyddid i ddyn ac nis gall ei throsglwyddo yn gyfreithlon ac ewyllysgar i arall, er o bosibl y geill ei cholli trwy drosedd.
5. Nid oes un dyn ac awdurdod ar ei fywyd, nac ar ei Grefydd, yn ganlynol nis gall drosglwyddo yr awdurdod arnynt i neb arall.
6. Yn enwedig nis geill roddi ar werth, neu ymmaith, fywydau Rhyddid a Chrefydd ei hiliogaeth, y rhai a enir mor rhydd ag ef ei hun ac nas gallant fod yn rhwym i sefyll wrth ei fargenion drygionus a byrbwyll ef.

Trenchard

The foregoing was translated from a Book named “The Manual of Liberty” printed 1795. Octavo, 406 pages.<sup>92</sup>

Ffynhonnell pwyntiau un, dau a thri Tomos yw'r darn hwn o nofel *Émile* gan Jean-Jaques Rousseau a atgynhyrchir o dan y bennawd ‘Rights of Man’ gan olygydd y *Manual of Liberty* (yn dilyn dyfyniad o’r *Contrat Social* gan Rousseau):

No father can transmit to his son the right of being useless to his fellow creatures. – In a state of society, where every man must be necessarily maintained at the expence of the community, he certainly owes the state so much labour as will pay for his subsistence, and this without exception of rank or persons. Rich or poor, strong or weak, every idle citizen is a knave.

The man who earns not his subsistence, but eats the bread of idleness, is no better than a thief; and a pensioner who is paid by the state for doing nothing, differs little from a robber who is supported by the plunder he makes on the highway.

Idem. [Rousseau] *Emile*, liv. 3.<sup>93</sup>

Cyfieithodd y ddau baragraff i'w dri phwynt cyntaf. Ychwanegodd atynt bwyntiau pedwar, pump, a chwech, cyfieithiadau o’r ‘Cato’s Letters’, a ddarganfu nes ymlaen yn y gyfrol:

All men are born free: liberty is a gift which they received from God himself, nor can they alienate the same by consent, through possibly they may forfeit it by crimes.

---

<sup>92</sup> LIGC Llsg. 6238A, ff. 101–2.

<sup>93</sup> Anhysbys, *Manual of Liberty*, tt. 37–8.



No man has power over his own life, or to dispose of his own religion, and cannot consequently transfer the power of either to any body else, much less can he give away the lives, liberties, religion, — of his posterity, who will be born as free as himself, and can never be bound by his wicked and ridiculous bargain.

TRENCHARD.  
Cato's Letters, vol. ii No. 59<sup>94</sup>

Cyfeiriad at gyfres o ysgrifau gwleidyddol gan y Chwigiadaid John Trenchard (1662–1723) a Thomas Gordon (1671–1750) a ymddangosodd rhwng 1720 a 1723 yn y *London* a'r *British Journal* oedd y 'Cato's Letters'. Cyhoeddwyd hwy fel *Essays on Liberty, Civil and Religious* mewn pedair cyfrol sawl gwaith drwy gydol y ganrif. A hwythau'n llawn ystyriaethau ar ryddid a natur dyn, cyfrifoldebau llywodraethau a pheryglon unbeniaeth, yr oeddent o ddylanwad eithriadol ar arweinwyr Chwyldro America.<sup>95</sup> Yn amlwg ystyrir hwy yn bwysig o hyd gan ddiwygwyr a gweriniaethwyr Saesneg yn y 1790au. Dewiswyd y ddwy frawddeg ar ryddid fel genedigaeth-fraint dyn o lythyr 59, ac ychwanegodd Tomos hwy at ei destun Cymraeg i greu maniffesto chwe phwynt. Asiodd felly destunau o ddau gyfnod a dau ddiwylliant gwleidyddol i destun Cymraeg â neges newydd. Ni chyhoeddwyd y testun hwn. Fel y rhan fwyaf o synfyfyrdodau radicalaidd Iolo Morganwg, a darnau eraill ymfflamychol yn 'Y Gell Gymmysg', goroesa mewn llawysgrif yn unig. Emynau, pregethau a gweddiâu gwleidyddol ond llai ymfflamychol, yw'r eitemau y tueddai Tomos eu cyhoeddi, yn ogystal â gwaith ei athrawon Undodaidd. Goddefgarwch crefyddol, gosodiadau Duw fel sail i greu cymdeithas gyfiawn o unigolion rhydd, a heddychiaeth yn anad dim, oedd ei negeseuon mwyaf. Gwelir hyn mewn cyfieithiad a ymddangosodd yn rhifyn olaf ei *Drysorfa Gymmysgedig*, ac sydd yn ei gysylltu â radicaliaid ei ardal y tu hwnt i'w farwolaeth.

---

<sup>94</sup> Ibid., t. 39.

<sup>95</sup> John Trenchard, 'NO. 59. SATURDAY, DECEMBER 30, 1721. Liberty proved to be the unalienable Right of all Mankind', yn idem a Thomas Gordon, *Cato's Letters, or Essays on Liberty, Civil and Religious, and Other Important Subjects Edited and Annotated by Ronald Hamowy* (Indianapolis, 1995), [http://oll.libertyfund.org/titles/1238#lf0226-02\\_head\\_029](http://oll.libertyfund.org/titles/1238#lf0226-02_head_029), cyrchwyd 1 Mawrth 2016.

Fel y soniwyd uchod, y *Cambridge Intelligencer* oedd un o ffynonellau pennaf Tomos Glyn Cothi yn ‘Y Gell Gymmysg’. Ymddengys i’r papur gyrraedd siroedd Caerfyrddin a Cheredigion a Morgannwg, ac i radicaliaid a beirdd gyfnewid rhifynnau, fel y gwnaethant gyda’r *Chester Chronicle* a’r *Hog’s Wash*.<sup>96</sup> Y *Cambridge Intelligencer* oedd ffynhonnell emyn a gyhoeddodd Tomos yn rhifyn olaf ei *Drysorfa Gymmysgedig*, tebyg i’r rhai a gyfieithodd o *Politics for the People* ar gyfer y rhifyn cyntaf, ac i’r cyfieithiad o’r un ffynhonnell a geir yn llawysgrif Alwyn Evans.<sup>97</sup> Ni fu ei natur fel cyfieithiad yn amlwg, am i Tomos hepgor cyd-destun a ffynhonnell yr ‘Hymn berthynol ar Ddydd Ymryd’ hwn. Canfûm ei fod yn un o bedwar fersiwn Cymraeg o emyn Saesneg drwy gwrso llythyr a anfonwyd at olygydd *Yr Ymofynydd*, John E. Jones, gan un J. Jones ym 1848:

BARCHEDIG YMOFYNYDD: – Dilys y bydd yn hoff gan lawer o’ch darllenwyr weled y cyfieithiad isod, o’r Hymn a ganwyd yn Sheffield, ar ddydd gwyl y brenhin, (neu yn ol y saesneg dydd Ymryd) yn y flwyddyn 1794, gan mai yr enwog D. Davis, gynt o Gastell Howell a’i trôdd i’r Gymraeg. Mae dau gyfieithiad arall eisiws o flaen y Cymry. Y naill gan y Parchedig Edward Evan o Aberdar yn ‘Afalau’r Awen’, tu dalen 60; a’r llall gan y Parchedig Thomas Evans, o’r un lle, yn ei Hymnau, tu dalen 94. Efallai Syr, byddai yn ddoeth i chwi i argraffu y Saesnaeg gyda llaw, fel y gallo y rhai, a fedrant wneuthur barn gyfiawn, weled pa un o’r tri Bardd oedd y cyfieithydd goreu.<sup>98</sup>

Cawn wybod am gyfieithiadau’r gweinidog Presbyteraidd, bardd a chyfieithydd Edward Evan, Aberdâr (1716–98), ac un y gweinidog Ariaidd, ysgolfeistr enwog, bardd a chyfieithydd David Davis, Castell-hywel (1749–1827), y ddau yn gyfeillion i Tomos, ac am fersiwn ychwanegol gan Tomos yntau o 1811. Canwyd y gwreiddiol mewn gwrthdystiad radicalaidd awyr agored ar 28 Chwefror 1794 ar un o’r diwrnodau o Ymryd a orchmynnwyd o leiaf unwaith y

<sup>96</sup> Noder bod benthg papurau newydd, cylchgronau a deunydd darllen tebyg, a’u copïo i lawysgrifau, yn arferol yn y cyfnod. Gweler Löffler, *Welsh Responses*, t. 1; Charnell-White, *Welsh Poetry*, t. 337. Ynglŷn â’r *Cambridge Intelligencer*, cymharer, e.e., LIGC Llgr. 6238A, f. 150, ‘General Thanksgiving’ â LIGC Llgr. 12350A, Diary &c. of John Davies, Ystrad, 1796–99’, ff. 108–9, ‘General Thanksgiving’. Dengys ‘Newyddion Mawrth Ionawr 28’, yn y *Cylch-grawn Cymraeg*, 5 (1794), 285–7, berthynas agos gyda thestunau yn y *Cambridge Intelligencer*.

<sup>97</sup> [Thomas Evans], ‘Hymn berthynol ar Ddydd Ymryd’, *Y Drysorfa Gymmysgedig*, 3 (1795), 106–7; LIGC Llgr. 12365D, Alwyn C. Evans, ‘Collectiana relating to the Town and County of Caermarthen’, f. 526; Löffler, *Welsh Responses*, tt. 226–34.

<sup>98</sup> J. Jones, ‘Barchedig Ymofynydd’, *Yr Ymofynydd*, I/9 (1848), 216.

flwyddyn gan y Goron i ddeiliaid y deyrnas ymprydio a gweddio dros ymdrech y rhyfel.<sup>99</sup> Ymddangosodd y testun ffynhonnell mewn taflen ar y cyd â phenderfyniadau gwleidyddol ymfflamychol, megis ‘that war, the wretched artifice of Courts, is a system of rapine and blood unworthy of rational beings’, a ‘that if the present war be a war of combined Kings against the people of France, to overthrow that liberty which they are struggling to establish, it is in our opinion a war of the most diabolical kind’.<sup>100</sup> Gwyddom hyn, canys y cyflwynwyd tri phennill ohono a’r penderfyniadau hyn fel tystiolaeth y wladwriaeth yn erbyn Thomas Hardy yn ei achos llys am deyrnfradwriaeth yn Hydref 1795.<sup>101</sup> Erbyn hyn yr oedd yr ‘Hymn. Sung at a Meeting of the Friends of Peace and Reform in Sheffield, held on the late fast Day’ wedi hen ymddangos yn y *Cambridge Intelligencer*,<sup>102</sup> a dyma destun ffynhonnell y cyfieithiadau i’r Gymraeg. James Montgomery (1771–1854) oedd yr awdur, a symudodd i Sheffield ym 1792, gan sefydlu’r papur newydd y *Sheffield Iris* ym 1794 a chael ei garcharu ddwywaith am gyhoeddi testunau radicalaidd cyn diwedd y 1790au. Mewn llawysgrif yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru y deuthum i o hyd i’w enw a deall beth oedd y ddolen rhwng llawysgrifau’r cyfieithiadau a’r gohebydd, ‘J. Jones’. Yn un o lawysgrifau’r Undodwr R. J. Jones, Broniestyn, sydd yn llawn o waith cyfnod Chwyldro Ffrengig 1789, ceir y testun Saesneg, esboniad ar y cyfieithiadau, a chyfeiriad at gyfieithiad cyntaf Tomos:

Cyfieithiad o’r uchod gan D. Davis, o Gastell Hywel. [Gwel un arall gan T. Evans, Aberdar, yn ei Eirgrawn [sic], ac un arall gan Ed. Evans yn Afalau’r Awen] ... From the Rev John Jones, Aberdare’s copy of the Rev. end Evans’ MS.<sup>103</sup>

---

<sup>99</sup> Roland Bartel, ‘The Story of the Public Fast Days in England’, *Anglican Theological Review*, XXXVII/3 (1955), 190–200; Owen H. Morris, ‘Ffuriau Gweddi’, *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru*, XXIII/2 (1983), 130–40.

<sup>100</sup> Anhysbys, *Fast Day As Observed at Sheffield: A Serious Lecture Delivered at Sheffield; February 28, 1794, being they day appointed for a General Fast, to which are added a Hymn and Resolutions* (London, 1794), yn Barrell a Mee (goln.), *Trials for Treason and Sedition*, V, tt. 333–4.

<sup>101</sup> Ibid.

<sup>102</sup> ‘Hymn. Anon. The Cambridge Intelligencer (March 15, 1794) Sung at a Meeting of the Friends of Peace and Reform in Sheffield, held on the late fast Day’, yn Betty T. Bennett ac Oriane Smith (goln.), ‘British War Poetry in the Age of Romanticism, 1793–1815’, [http://www.rc.umd.edu/editions/warpoetry/1794/1794\\_8.html](http://www.rc.umd.edu/editions/warpoetry/1794/1794_8.html) cyrchwyd 1 Mawrth 2016. Am y testun ffynhonnell a’r testunau Cymraeg, gweler Marion Löffler, ‘Cyfieithiadau emyn heddychol Saesneg i’r Gymraeg, 1794–1848’, tt. xx–xx yn y rhifyn hwn.

<sup>103</sup> LIGC Llsg. R. J. Jones, Broniestin, Aberdâr, ff. 144–8.

Yr oedd llawysgrif â mwy nag un fersiwn wedi bod ym meddiant Tomos Glyn Cothi felly, cyn dod i law i John Jones (1802–63), cyn-ddisgybl i David Davis ac olynnydd i Tomos Glyn Cothi fel gweinidog Undodaidd yr Hen Dŷ Cwrdd, Aberdâr. Ef oedd y gohebydd ym 1848, ac yr oedd yn dad i Rees Jenkin Jones, Broniestyn, golygydd yr *Ymofynydd*.<sup>104</sup> Yr oedd rhwydweithiau Undodwyr, gweinidogion yr efengyl a beirdd de Cymru mor ddwys a hirhoedlog, fel y goroesodd y cyfieithiadau a'r wybodaeth am eu perthynas i ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

O ystyried y fersiynau Cymraeg yng nghyd-destun y cyfnod, nid yw'n syndod i Tomos Glyn Cothi hepgor unrhyw gyfeiriad at darddiad yr emyn ym 1795. Yr oedd awdur ei destun ffynhonnell yn y carchar, a llywodraeth Prydain Fawr wedi pasio nifer o ddeddfau yn ogystal â chynnal achosion llys cyhoeddus yn erbyn y sawl a gyhuddwyd o deyrnfradwriaeth, fel y rhai yn erbyn John Thelwall a Thomas Hardy. Y dewis doeth oedd cuddio cynnwys chwyldroadol y gwaith, nid ei amlygu. Sefyllfa debyg a geid cyn 1798 (pan fu farw'r ail gyfieithydd Edward Evan) ac ym 1811, a Phrydain mewn rhyfel yn erbyn ymerodraeth Napoleon tan 1815, gyda hawliau deiliaid y deyrnas yn gyfyngedig. Atgynhyrchwyd y testun ffynhonnell a'r ail gyfieithiad ochr yn ochr ym 1804, gan gynnig teitl amwys a'r gair 'parchus' yn amlwg, sef 'An Hymn composed by a respectable person in the time of war and tumult, in the year 1794'. Dim ond 'The Following is a translation of the Hymn', a geir fel teitl Cymraeg, gan fachu ar y cyfle i symud y cyfrifoldeb am y cynnwys i awdur y gwreiddiol.<sup>105</sup> Ymddangosodd ail fersiwn Tomos Glyn Cothi ym 1811 fel 'Hymn XCIV. Galarnad ar Ddydd Ympryd' yn ei lyfr emynau a chyda'r ychwanegiad 'Galarnad' yn y teitl, cyfeiriad amlycach at y cynnwys, ond heb fod yn

---

<sup>104</sup> 'Y Bywgraffiadur Cymreig', d.e. Jones, John (1802–1863); Jones, Rees Jenkin (1835–1924), <http://yba.llgc.org.uk/>, cyrchwyd 1 Mawrth 2016.

<sup>105</sup> Edward Evan, *Afalau'r Awen: Sef Caniadau, Moesol a Duwiol, yn Cynnwys Anerchiadau i Fyw yn Weddaidd, Ac i Ymddwyn yn Gariadus at Bawb o Ddynol Ryw* (Merthyr Tydfil, 1804), tt. 56–7.

wleidyddol.<sup>106</sup> Nid yw cyfieithiad David Davis, Castell-hywel, yn y casgliad o gerddi a chyfieithiadau o'i law a ymddangosodd ym 1824, dair blynedd cyn iddo farw.<sup>107</sup> Ym 1848 y daeth allan heb unrhyw deitl, ond yn gysylltiedig ag enwau a gwaith Tomos Glyn Cothi ac Edward Evan. Yn ôl arfer Oes Fictoria, crëwyd cystadleuaeth fel y byddai'r sawl 'a fedrant wneuthur barn gyfiawn, weled pa un o'r tri Bardd oedd y cyfieithydd goreu'.<sup>108</sup> Er ei bod hi'n ddichonadwy i'r tri chyfaill gynnal cystadleuaeth – o gofio'r cydweithio rhyngddynt ym meysydd crefydd a barddoniaeth a'r ffaith fod o leiaf tri fersiwn wedi bod ym meddiant Tomos Glyn Cothi – nid oes modd cadarnhau eto os a pha bryd y cynhaliwyd eu 'talwrn y cyfieithwyr'. Fel y gwelir o'r testunau a ymddengys ar dudalennau'r cylchgrawn hwn, y mae'n sicr i Edward Evan fynd at y gwaith o drosi'r testun ymfflamychol hwn i'r Gymraeg mewn ffordd wahanol i Tomos Glyn Cothi a David Davis.<sup>109</sup>

Heb amheuaeth, y testun Cymraeg mwyaf uniongyrchol a thaer, o ran y neges wleidyddol, yw un Tomos Glyn Cothi, 1795. Y rheswm, yn fy marn i, yw iddo allu defnyddio ei lais 'niwtral' yn y proses o drosi'r testun o un iaith i'r llall, sef y llais y byddai'n ei ddefnyddio'n anianol i gyfansoddi testun yn ei famiaith, ac a fyddai'n creu agosatrwydd at y gynulleidfa.<sup>110</sup> Gwnaed hyn yn bosib oherwydd ei fod yn rhannu'r un cefndir gwleidyddol a chrefyddol ag awdur y testun ffynhonnell ac iddo ysgrifennu a chyfieithu emynau a gweddiâu tebyg iawn, yn tanseilio gwleidyddiaeth y llywodraeth, yn y cyfnod hwn. Ceir yr argraff, serch hynny, o gymharu â'i fersiwn o 1811, iddo gyfieithu'r gerdd braidd ar hast. Cyfieithiad

---

<sup>106</sup> Thomas Evans, *Cyfansoddiad o hymnau, wedi cael eu hamcanu at addoliad cyhoeddus; ag yn enwedig at wasanaeth Undodiaid Cristianogol* (Caerfyrddin, 1811), t. 94.

<sup>107</sup> Y Colwynydd/The Editor (gol.), *Telyn Dewi; Sef Gwaith Prydyddawl y Parch. David Davis o Gastell-Hywel, Ceredigion; Yn Cynnwys Amryw Gyfansoddiadau o ei eiddo ei hun, a chyfieithiadau allan o waith rhai o'r prydyddion enwocaf yn y Iaith Saesonaeg; Addison, Young, Gray, Barbauld, Pope, &c. Ar Destynau Crefyddol, Hyfforddus, A Difyr* (Llundain, 1824).

<sup>108</sup> Jones, 'Barchedig Ymofynydd', 216.

<sup>109</sup> Gweler, Löffler, 'Cyfieithiadau emyn heddychol', xx–xx.

<sup>110</sup> Am ddewisiadau (anymwybodol) cyfieithwyr o leisiau 'niwtral' neu 'neutralizing', 'tafleisiol' neu 'ventriloquizing', a 'pellhaol' neu 'distancing', wrth ymgymryd â'r proses o gyfieithu, gweler Brian Mossop, 'The Translator's Intervention through Voice Selection', yn Jeremy Munday (gol.), *Translation as Intervention* (London, 2007), tt. 18–37.

gweddol agos o'r gerdd Saesneg chwe phennill o bedair llinell, â dau gwpled odliadol ym mhob un, a geir yma. Eto i gyd, newidia Tomos eiriau a threfn llinellau, gollynga eiriau, ac ychwanega ddeunydd, i gyfleu ei neges ei hun. O asesu'r effaith, y mae'r cyfanwaith yn llai darluniadol o dywyll neu Gothig ei arddull, ac yn fwy gweithredol na'r gwreiddiol. Egyr pennill un ag apêl ganolog at 'Dduw'r tosturi'. Tomos, o'r pedwar bardd, yw'r unig un i ddefnyddio'r gosodiad hwn am Dduw fel bod cydymdeimladol yn hytrach nag arglwydd lluoedd mawr, sy'n creu agosatrwydd yn syth. Yn lle cwestiwn pryderus y gwreiddiol a chyfieithiadau Evans a Davis, ceir datganiad byr ar ddiodeffaint 'gweddwon a'r ymddifaid prudd, sy'n llefain arnat nos a dydd', fel her i Dduw dalu sylw. Ym mhennill dau, troir 'red and terrible hand' yr arglwydd yn wialen a fflangella Ewrop, dyfais a ddefnyddir hefyd gan David Davis, o bosib am fod y ddelwedd hon yn gyfarwydd o ddisgŵrs filflwyddiaethol y cyfnod.<sup>111</sup> Cyfieitha'r ymadrodd beiblaidd 'thy flaming vengeance' fel 'dy ddyrnod dig', a'r mynegiant hwnnw'n fwy agos at iaith y bobl gyffredin. Yn bwysicaf, y mae'n hepgor y gair 'guilty' sydd yn y testun ffynhonnell a'r cyfieithiadau eraill, gan warantu maddeuant i'r gynulleidfa. Egyr pennill tri â chyfieithiad agos o linell un y ffynhonnell, sef bod afonydd Ewrop yn waed i gyd, ond try'r 'veins' yn 'ffrydiau', er dealltwriaeth well. Disodla'r 'towers', 'ashes' a 'graves' Gothig gyda 'meirw sethrir dan draed', delwedd drawiadol, ond mwy diriaethol. Yn lle'r delweddau tywyll a ddilyna, ac a gyfieithir yn ffyddlon gan Edward Evan, ymddengys llinellau tri a phedwar fel *Versatzstücke*, ymadroddion gosodedig a arferwyd ganddo mewn cyfieithiadau eraill ar y pryd.<sup>112</sup> Siawns iddo geisio osgoi delweddau'r gwreiddiol, a gorfod canfod llinellau addas ar hast. Ceir geiriad gwahanol, mwy rhugl, yn ei fersiwn o 1811, sef 'Ein cedyrn, trwy ffyrnigrwydd mawr, / Eu rhifo gânt i lwch y llawr'. Yr un amcan sydd gan y ddau fersiwn, serch hynny, sef delweddu tra-arglwyddiaeth Duw dros

---

<sup>111</sup> Ceir enghreifftiau o'r ddisgŵrs hon yn y Gymraeg yng ngwaith Morgan John Rhys.

<sup>112</sup> Löffler, *Welsh Responses*, tt. 229–30; LIGC Llgr. 12365D, Alwyn C. Evans, 'Collectiana', f. 526.

fawrion Ewrop. Y mae'n arwyddocaol fod cyfieithiad David Davis o'r llinellau hyn yn defnyddio'r un syniad o wŷr mawr darostyngedig gan Dduw yn lle'r delweddu Gothig yn y gwreiddiol ac yng nghyfieithiad Edward Evan. Cryfhânt y teimlad fod Tomos Glyn Cothi a David Davis yn ymwybodol o gyfieithiadau ei gilydd.

Yn ôl ym 1795, y newid mwyaf trawiadol a wna Tomos Glyn Cothi ym mhennill pedwar yw newid yr ansoddair i 'uchel ffroen' yn hytrach na chyfieithu 'mad' i'r Gymraeg. Y mae gormeswyr Ewrop yn gyfrifol am eu gweithredoedd eu hunain, felly. Gofynna i Dduw eu gwneud nhw'n 'addfwyn megis oen', gan osgoi'r gosodiad anghyfarwydd hyd yn oed yn Saesneg y cyfnod, 'whose haughty foreheads beat the sky'. Ym mhennill pump, cyfieitha 'That Arm alone Salvation brings' fel 'I'n cadw rhag gorthrymder llym', gan bersonoli trwy newid y mynegiant i'r person cyntaf lluosog a pholiteiddio drwy fewnosod 'gorthrymder llym'. Cynydda ei gyfieithiad o'r pennill olaf neges wleidyddol y testun ffynhonnell yn ogystal, a fynegir yno drwy'r allweddeiriau 'rights', 'truth' a 'peace'. Ychwanegir 'rhyddid' gan Tomos Glyn Cothi – allweddair pwysicaf disgŵrs radicalaidd y cyfnod o bosib – ddwywaith.

Erbyn i Tomos Glyn Cothi ddiwygio ei gyfieithiad ym 1811, treuliasai ddwy flynedd yn y carchar, bu'n sefyll yn y carchar cyffion ddwywaith ac fe'i rhwymwyd i gadw'r heddwch am saith mlynedd ar ôl iddo gael ei ryddhau. O ganlyniad ceir yr argraff iddo fod yn fwy gofalus. Mabwysiadwyd llais mwy 'tafleisiol' ganddo o bosib, a'i broses o gyfieithu y tro hwn yn fwy gwybodus o ddisgwyliadau'r sawl a fyddai'n darllen y testun, gan gynnwys yr awdurdodau.<sup>113</sup> Ni cheir 'rhyddid' pellach yn y pennill olaf, sydd wedi newid yn gyfan gwbl i ddatgan neges heddychol yn hytrach nag un wleidyddol, a gobaith am ddiwedd rhyfel. Y mae'n bosib, wrth gwrs, i'r newid agwedd darddu o fyw gyda rhyfel am un mlynedd ar bymtheg. Mae'r ail fersiwn yn fwy caboledig hefyd, fel y gwelwyd yn achos llinellau tri a phedwar ym

---

<sup>113</sup> Gweler nodyn 110.

mhennill tri. Cofier bod gan Tomos bymtheg mlynedd yn ychwaneg o brofiad ysgrifennu a chyfieithu, ac iddo gyhoeddi casgliad o emynau ym 1811. Cyfuna'r profiad â fflachiadau o'r hen ysbryd gwleidyddol yn y newidiadau i bennill pump, ble y disodlir y cyfeiriad beiblaidd at yr iau Eifftaidd, a geir ym mhob un o'r testunau eraill, yn gyfan gwbl. Yn ei le ceir testun mwy cyffredinol a erfynia ar Dduw 'i'n cadw rhag gorthrymder llym; / Y fraich waredodd lawer gwaith, y caethion o gyfyngder maith'.

Cyfieithiad agos iawn yw un Edward Evan, a wnaethpwyd cyn 1798, er nad ymddangosodd y testun tan 1804. Gosodwyd y testun dwyieithog hwn yn ofalus, i'r darllenydd gymharu'r Saesneg â'r Gymraeg gyfochrog linell wrth linell, bron â bod air am air, ac y mae cyfieithydd a golygydd yn ei gwneud hi'n glir mai adrodd llais rhywun arall y maent. Disgrifiwyd yr agwedd hon at y proses o gyfieithu fel un 'pellhaol', gan fod y cyfieithydd yn ceisio cyfeirio'r testun yn ôl at y gwreiddiol ac ymbellhau oddi wrth y cynnyrch.<sup>114</sup> Amlygir hyn mewn gosodiadau Cymraeg anghyfarwydd braidd, megis 'gogwydda nawr dy glust' yn llinell un y gerdd, neu 'bob talcen balch ac uchel, sy'n curo'r awyr fry' ym mhennill pedwar, llinell pedwar. O ganlyniad i'r arddull o gyfieithu llythrennol, y mae gan y gerdd hon arlliw dywyll, Gothig, yn enwedig o ystyried y trydydd pennill. Yr unig newid sylfaenol a wneir gan Edward Evan yw ei benderfyniad i gyfyngu'r olygfa i Brydain yn lle Ewrop ym mhennill dau, sydd yn newid ansawdd a neges gweddill y gân. Ychwanega yntau'r gair 'rhyddid' ym mhennill chwech, ond 'rhyddid gwir dy ras', sef gras Duw, yw ei amcan ar gyfer y gynulleidfa.

Cyfieithiad David Davis, o bosib, yw'r un mwyaf llwyddiannus o ran disgwyliadau i gerdd yn yr iaith Gymraeg. Teimla'r darllenydd ei fod yn hollol gyfforddus yn ei groen yn y proses o drosi'r testun i greu cerdd Gymraeg wych. Ceidw'n agosach at drefn a geiriad y testun ffynhonnell na Tomos, gan gadw ansoddeiriau megis 'guilty' fel 'euog', a delweddau megis

---

<sup>114</sup> Gweler nodyn 110.



un y tân ym mhennill dau, llinell pedwar. Y mae'r manau ble y cyfieitha'n fwy rhydd yn cyddaro â dewisiadau Tomos Glyn Cothi, yn enwedig y newidiadau a wnaed i greu fersiwn 1811. Gwelir hyn ym mhennill dau, llinellau un a dau, ble y mae'r ddau fardd yn newid trefn y llinellau, yn newid 'war' am gosbau neu deimladau mwy pendant, a defnyddio'r trosiad o wialen fflangellu Duw yn lle'r un o'i law goch. Y mae'n ddi-ddorol i David Davis erfyn ar i Dduw ddarostwng, nid y 'gorthrymwyr' bydol a geir yn y gwreiddiol ac yn y cyfieithiadau eraill yn unig, ond hefyd y 'cablwyr hyll' sy'n gwyrddroi neges Duw. Terfyna'r cyfieithiad hwn gyda mynegi gobraith am ryddid i bawb, yn debyg i'r gwreiddiol, ond ychydig yn fwy miniog drwy ei gyfuniad o 'gaethion' â 'breintiau rhydd-did'. Y mae ychwanegu'r gair 'rhyddid' at y gwreiddiol yn ein hatgoffa o gyfieithiad 1795 Tomos Glyn Cothi unwaith yn rhagor. Y mae hi'n glir i'r cyfieithiadau ffurfio grŵp, a chaniatâ eu bodolaeth i ni gymharu techneg ac arddull gyfieithu'r tri bardd, ond ni ellir gwybod i ba raddau y cydweithient.

### *Casgliadau*

Yr wyf yn ymwybodol iawn ei bod yn amhosib rhoddi dadansoddiad llawn o ystod ac ystyr y gwaith cyfieithu a wnaed gan radicaliaid Cymru yn sgil Chwyldro Ffrengig 1789 a'i effeithiau hir dymor. Amcan yr ysgrif hon oedd arddangos rhai o nodweddion y ddisgwrs gyhoeddus a'r farn breifat am gyfieithu, llwybrau troellog y ffynonellau i Gymru a'r Gymraeg, yr agweddau a ddylanwadodd a'r technegau a ddefnyddiwyd i drosi'r testunau ffynhonnell Saesneg, y rhwydweithiau o feirdd a chyfieithwyr, a'r modd y derbyniwyd eu gwaith y tu hwnt i ddiwedd y ddeunawfed ganrif. Yn ychwanegol, amcenais hyrwyddo ein gallu i drafod cyfieithu diwylliannol yng nghyfnodau hanesyddol y Gymraeg drwy briodoli cysyniadau megis 'cyfieithu dilynol', 'cyfieithu cyfnewid', 'ffug-gyfieithu', a'r cysyniad o leisiau 'niwtral', 'tafleisiol' a 'pellhaol' i'r maes ymchwil yng Nghymru a'r derminoleg i'r Gymraeg. Yn anad

dim, gobeithio i mi hyrwyddo ein gwerthfawrogiad o gyfraniad cyfieithwyr megis Eiddil, Jac  
Glan-y-gors, Tomos Glyn Cothi, David Davis ac Edward Evan i iaith a llên Cymru.

*Marion Löffler*

ABERYSTWYTH